

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
2023 – 2024



GWERTHOEDD EIN CYNGOR
"Cefnogol, Teg, Effeithiol ac Arloesol"

Cynnwys

Ein Datganiad Cydraddoldeb	3
Cyflwyniad.....	3
Cyd-destun.....	3
Y Ddyletswydd Cydraddoldeb.....	4
Ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynnydd.....	6
Amcan 1	6
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn eu deall.	6
Amcan 2	6
Sicrhau bod hawliau pobl a chymunedau yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth	6
Amcan 3	6
Gweithio i ddileu'r anfanteision a'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall	6
Amcan 4	6
Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.....	6
Amcan 5	6
Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg	6
Amcan 1	8
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn eu deall.	8
Amcan 2	13
Sicrhau bod hawliau pobl a chymunedau yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a cham-drin	13
Amcan 3	24
Gweithio i ddileu'r anfanteision a'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall	24
Amcan 4	44
Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.....	44
Amcan 5	50
Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg	50
Gwybodaeth Ychwanegol.....	52
Atodiad A.....	53
Data am y Gweithlu - Data Monitro Cydraddoldeb Gweithwyr.....	53

Ein Datganiad Cydraddoldeb

"Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymrwymo i sicrhau mwy o gydraddoldeb fel cyflogwr ac wrth gyflawni pob agwedd ar ei fusnes. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gymuned rydym yn ei gwasanaethu, aelodau presennol o staff a darpar aelodau o staff yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio ein holl wasanaethau ac i fanteisio ar ein holl gyfleoedd".

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn cael triniaeth llai ffafriol am fod ganddynt nodwedd warchodedig benodol. Os yw'n amlwg bod anghydraddoldeb o ran triniaeth neu ganlyniad, bydd y Cyngor yn cymryd camau penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o'r fath.

Byddwn yn canolbwyntio ar adnabod y materion anghydraddoldeb yn Nhorfaen a sut y byddwn yn gweithio tuag at sicrhau canlyniadau gwell i bobl lle mae tystiolaeth o anghydraddoldeb yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Credwn y gall holl ddinasyddion Torfaen ddisgwyl cael eu trin yn deg a chyda pharch wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu ddod i gysylltiad â nhw, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r cyhoedd a'n partneriaid i ddatrys materion lle nad oes tystiolaeth o safonau o'r fath.

Mae sicrhau bod ein gwasanaethau'n helpu ac yn cefnogi pobl agored i niwed yn ein cymunedau yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Byddwn yn gweithio i wella ein gwasanaethau, a'u cynnal, fel eu bod yn cynorthwyo hawliau'r bobl a'r grwpiau sy'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac yn eu diogelu."

Cyflwyniad

Gallwn ddarparu gwasanaeth effeithiol dim ond os ydym yn cydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yn ein cymunedau ac yn galluogi ein gweithlu i ddiwallu anghenion a phryderon pob un o'n dinasyddion. Mae tegwch wrth wraidd gwaith ac ethos y Cyngor ar bob lefel. Er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd llym yr ydym wedi eu hwynebu fel Cyngor, rydym wedi parhau i ymdrechu i sicrhau tegwch ym mhob un o'n gwasanaethau ac ym mhob un o'n gweithgareddau.

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor am Gydraddoldeb, sy'n trafod ein cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024), yn un o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn dangos i ba raddau y mae'n cyflawni ei rwymedigaethau i gydnabod amrywiaeth a hyrwyddo mwy o gydraddoldeb. Er nad yw'n adrodd y stori gyfan yn sicr, mae'n sôn am ein cynnydd mewn perthynas â'r pum amcan cydraddoldeb statudol yr oedd y Cyngor wedi'u gosod drosto'i hun yn 2020. Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r materion sy'n effeithio ar lesiant ehangach ein cymunedau, yn enwedig ymhlith y rheiny sy'n wynebu anfanteision.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu'r gweithgareddau sydd wedi bod yn fwy arwyddocaol i gynnydd y Cyngor wrth iddo hyrwyddo mwy o gydraddoldeb ac wrth gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y dyletswyddau cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cyd-destun

Yr Adroddiad Strategol Blynyddol am Gydraddoldeb yw cynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol **1 Ebrill**

2023 – 31 Mawrth 2024, a dyma'r pedwerydd o bedwar adroddiad blynyddol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y 5 Amcan Cydraddoldeb Strategol a chwblhau'r camau gweithredu sydd o dan bob un.

Mae'r sector cyhoeddus yn dal i weithredu mewn amgylchiadau ariannol heriol iawn, rydym yn dal i weld effeithiau pandemig Covid-19 ac rydym wedi gorfod addasu i'r argyfwng costau byw ac ymateb iddo. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cynnydd parhaus yn nifer o feysydd ei Amcanion Cydraddoldeb, a hynny'n aml trwy weithio mewn partneriaeth, harneisio'r asedau yn ein cymuned – yn bobl ac yn lleoedd - a datblygu dull cydlynol sy'n canolbwyntio ar y gymuned wrth gyflawni ar gyfer Torfaen.

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb

Fe ddaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol at ei gilydd, a chyflwyno un Ddeddf i gymryd eu lle. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf yn cynnwys **ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'). Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn gallu ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach, trwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth gynllunio polisiau a darparu gwasanaethau, a'u bod yna'n cael eu hadolygu. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adroddiad monitro blynyddol am y camau y mae wedi'u cymryd i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy ddarparu gwasanaethau, gan roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn ei rhannu.
3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheiny nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn cyfeirio at bob un o'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil*
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu wladol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

*Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

Weithiau defnyddir yr ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynnydd

Rydym yn gweithio tuag at bum amcan yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sef:

Amcan 1 <i>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn eu deall.</i>
Amcan 2 <i>Sicrhau bod hawliau pobl a chymunedau yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth</i>
Amcan 3 <i>Gweithio i ddileu'r anfanteision a'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall</i>
Amcan 4 <i>Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud</i>
Amcan 5 <i>Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg</i>

Mae **58 o gamau gweithredu** ar draws y pum amcan. Mae'r cynnydd tuag at amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhywbeth i'r Cyngor cyfan ac mae'n dibynnu ar ymrwymiad pob maes gwasanaeth tuag at eu camau gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gofynnem i'r swyddogion arweiniol:

- Pa gynnydd a wnaed yn ystod 2023/24?
- Pa heriau a gafwyd?
- I ba raddau ydych chi'n hapus â'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Trwy holi'r cwestiynau penodol hyn, gallwn ddeall prif gyflawniadau'r flwyddyn ac a oes her ar y cyd i swyddogion yn y maes hwn ai peidio. Maen nhw hefyd yn ein helpu i feddwl o ddifrif am unrhyw angen parhaus ac unrhyw ymdrech neu adnoddau y mae eu hangen yn y dyfodol.

Llwyddiannau Allweddol ar gyfer 2023/2024

Gellir tynnu sylw at y canlynol fel y llwyddiannau allweddol yn y flwyddyn adrodd hon:

- Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 ac mae wedi cael ei gyhoeddi.
- Mae cyfleoedd hyfforddi staff am bynciau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi cynyddu gyda dyfodiad platfform Thinqi.
- Mae Canllawiau a Pholisi Gwrth-fwlio Torfaen ar gyfer Lleoliadau Addysg (2024) wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae'r ddeialog rhwng ysgolion a'r Awdurdod Lleol wedi gwella; mae nifer yr achosion o fwlio ac aflonyddu a riportiwyd gan staff ysgolion yn cynyddu i gyd-fynd yn agosach â data ac ystadegau cenedlaethol.

- Cyflwynodd No Boundaries hyfforddiant gwrth-hiliaeth i Aelodau Etholedig a Tîm Arweinyddiaeth estynedig y Cyngor.
- Dathlwyd y Windrush gydag arddangosfa a aeth ar daith o amgylch adeiladau'r Cyngor am sawl wythnos.
- Parhaodd Tîm Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent i hyrwyddo a chyflwyno llawer o weithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant ac annog diwylliant o empathi a thegwch, a hynny mewn ysgolion ac ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.
- Yn rhan o'r fframwaith llety Cartrefi ar gyfer Wcráin, aeth Torfaen ati i gefnogi Llywodraeth Cymru i adleoli pobl o Wcráin a gyrhaeddodd drwy'r cynllun uwch-noddwr (canolfannau croeso) i ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r ffaith fod pob canolfan groeso ledled Cymru bellach wedi cau yn dyst i'r ymdrechion cydlynol a'r gwaith tîm rhwng Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Mewnffudo Strategol Cymru ac awdurdodau lleol.
- Rydyn ni wedi cyflawni nifer o gamau gweithredu er mwyn sicrhau, lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol, nad oes rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau ac adeiladau. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys rampiau, lifftiau, drysau mwy llydan, drysau sy'n rheoli mynediad, toiledau hygrych newydd, gwelliannau i'r cynllun lliwiau synhwyrdd ar gyfer y golwg, cynnal a chadw toiledau hygrych, ail-farcio mannau parcio ceir hygrych sydd ynghlwm wrth adeiladau ac ati. Mae'r holl waith yn cydymffurfio â BS8300 sy'n ganllaw arfer gorau a Rhan M (Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) y Rheoliadau Adeiladu.
- Gwnaethpwyd amrywiaeth o welliannau Teithio Llesol, gan ystyried pobl ag anableddau, a chafwyd ymgysylltiad rheolaidd â Fforwm Mynediad Torfaen.
- Agorodd prosiect ymgysylltu â ieuenctid Caffi Ysbrydoli yn y Ganolfan Ddinesig, gan roi profiad o weithio fel barista a phrofiad arlwyo i bobl ifanc.
- Yn 2023/24 fe gododd/arbedodd y Tîm Cynhwysiant Ariannol £125,492.95 i'w cleientiaid trwy hawlio budd-daliadau, ceisio am grantiau, lleihau gwariant fel dyledion sydd ddim yn flaenoriaeth a biliau sydd ddim yn flaenoriaeth, ac ati. Fe wnaeth y Tîm atal 38 o achosion rhag cael eu gwneud yn ddigartref.
- Mae'r Tîm Homeseeker yn dal i weithio'n agos gyda Therapyddion Galwedigaethol o fewn Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod anghenion trigolion Torfaen yn cael eu hasesu'n briodol, er mwyn deall eu hanghenion. Mae 93% o'r 348 ymgeisydd ar y gofrestr ar gyfer pobl ag angen am lety wedi'i addasu/hygrych, a amlygwyd mewn asesiad, naill ai wedi cael eu hasesu gan Therapydd Galwedigaethol neu'n aros am asesiad yn dilyn atgyfeiriad. Mae hyn yn gynydd o 86% o gymharu â'r un adeg y llynedd.
- Gwnaethpwyd 4,305 o Gyfeillion Dementia ar draws 152 sesiwn yn ystod 2023 – 2024 ac erbyn hyn mae gan y Rhwydwaith Cyfeillion Dementia dros 300 o aelodau.
- Dechreuodd y gwaith o sefydlu Hybiau Dementia ledled Gwent, mewn ymateb i adborth gan ddinasyddion a gasglwyd yn ystod ymgysylltiad Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent. Bydd Hwb Torfaen yn rhoi mwy o gefnogaeth o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth, i'r rheiny sy'n cael diagnosis o ddementia.

Heriau Allweddol a Gafwyd yn 2023/2024

Yr heriau allweddol ar draws yr awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod adrodd oedd:

- Roedd yr ymgynghoriad mewnol ac allanol helaeth ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, yr oedd gofyn ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth, wedi cymryd y rhan fwyaf o amser y Swyddog Cydraddoldeb, Partneriaethau a Pholisi yn ail hanner y flwyddyn.
- Mae cael gwared ar rôl Rheolwr Cydraddoldeb, Partneriaethau a Pholisi o'r strwythur corfforaethol yn ystod Chwarter 1 wedi lleihau'r capasiti o fewn Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cynyddodd Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol yn sylweddol yn Nhorfaen.
- Er bod staff yn gweithio'n ddiflino ac yn aml mewn ffordd arloesol i greu'r newid yr ydym eisiau ei weld, maen nhw'n parhau i adrodd bod yr effeithiau yn aml wedi'u cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael.

Cynnydd Tuag At yr Amcanion

Amcan 1 <i>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn eu deall.</i>	
Amcan: 1 Cam: A	Datblygu hyfforddiant am bynciau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae trafodaethau ledled Cymru gyda Chonsortium Dysgu Cymru wedi arwain at ddatblygu platfform e-ddysgu Thinqi, a'i fabwysiadu, ac mae nawr yn caniatáu i awdurdodau lleol ledled Cymru i gyd-ddatblygu arlwy hyfforddiant sylweddol ar-lein. Mae platfform Thinqi bellach yn fyw ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Tachwedd 2024) mae 8 modiwl ar gael yn yr adran 'cydraddoldeb'. Mae swyddogion cydraddoldeb o bob rhan o Gymru wedi cwrdd trwy Rwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb CLILC ac wedi trafod pynciau hyfforddiant addas i'w cynnwys. Bydd sgysiau'n parhau gyda'r arweinydd Dysgu a Datblygu a Phenaeithiad Gwasanaethau i sicrhau bod anghenion gweithlu'r Cyngor yn cael eu diwallu o ran deall materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei gwblhau'n briodol.	
Pa heriau a gafwyd?	
Er bod CBST wedi parhau i estyn allan ein modiwl e-ddysgu cydraddoldeb mandadol ein hunain dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan drafod yr elfennau hanfodol fel ein dyletswyddau cyfreithiol, mae adnoddau wedi cyfyngu ar y cyfle i ddatblygu hyfforddiant pellach am set eang o bynciau sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cydnabuwyd bod platfform cenedlaethol yn opsiwn gwell o lawer na dyblygu ymdrechion o'r math hwn ledled Cymru, a'i bod yn ffordd fwy realistig o sicrhau cynnydd.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	

Rydym bellach mewn sefyllfa dda, ac mae staff o sefydliadau gwahanol yn gweithio ar fodiwlau newydd, ychwanegol, a bydd trafodaethau'n parhau i ddatblygu'r cynnwys ymhellach.	
Amcan: 1 Cam: B	Datblygu'r broses gynefino i staff a sicrhau bod y gwerthoedd y manylir arnynt yn y Ffordd Rydym yn Gweithio (gan gynnwys ymddygiad teg) yn cael eu hymgorffori o fewn sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau gwaith blynyddol.
Swyddog Adrodd:	Angela Rogers
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o Gynefino – adolygiad cyflawn wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25 Lluniwyd a chyhoeddwyd canllawiau un-i-un i reolwyr / y gweithlu, a oedd yn ymgorffori gwerthoedd Y Ffordd Rydym yn Gweithio.	
Pa heriau a gafwyd?	
Sicrhau bod y broses yn addas ar gyfer ystod o staff ac ar gael mewn fformatau gwahanol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Cynlluniwyd adolygiad pellach yn 2024/25.	
Amcan: 1 Cam: C	Ystyried arfer gorau mewn prosesau recriwtio ac ymgymryd ag arolwg i sicrhau ein bod yn recriwtio mor deg ag y bo modd.
Swyddog Adrodd:	Angela Rogers, Tina Hulme
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Lansiwyd modiwl recriwtio ar-lein newydd yn iFOR, sef system Adnoddau Dynol a Chyflogres y Cyngor, ac mae hyfforddiant ar-lein i reolwyr bellach ar gael. Cynllun hirdymor i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer rheolwyr ymhellach.	
Pa heriau a gafwyd?	
Amherthnasol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 1 Cam: D	Datblygu ein gwybodaeth am ein gweithlu trwy wella'r ffordd y mae data am y gweithlu'n cael eu casglu, i'n galluogi ni i ddileu unrhyw anghydraddoldebau.
Swyddog Adrodd:	Angela Rogers

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Pa heriau a gafwyd?	
Gan nad yw'r gofyniad i staff ddatgan gwybodaeth mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig yn fandadol, ac mae staff yn aml yn amharod i roi'r wybodaeth hon, mae'n anodd datblygu darlun llawn o'r gweithlu.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Fel y mae'r adnoddau ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i amser swyddogion ganolbwyntio ar recriwtio o'r newydd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn ymrwymo i ddadansoddi data am recriwtio, er mwyn dangos a yw carfannau o staff sy'n ymuno â'r gweithlu yn cynrychioli poblogaeth Torfaen ai peidio.	
Amcan: 1	Hybu gweledigaeth ac egwyddorion Llywodraeth Cymru o'r Adolygiad o
Cam: E	Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau i geisio rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal i bob menyw, dyn ac unigolyn anneauaid.
Swyddog Adrodd:	Tina Hulme
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Dilëwyd	
Pa heriau a gafwyd?	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 1	Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – symud ymlaen ar gydraddoldeb cyflog rhwng y
Cam: F	rhywiau yn y gweithlu.
Swyddog Adrodd:	Tina Hulme
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cynhaliwyd dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhywedd i ddeall a oes unrhyw wahaniaethau mewn cyflog rhwng cyflogau'r rhyweddau o fewn y strwythur graddio. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y strwythur cyflogau yn gadarn ac nad oes anghydraddoldebau sylweddol rhwng cyflogau.	
Pa heriau a gafwyd?	
Amherthnasol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	

Amcan: 1	Gweithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl.
Cam: G	
Swyddog Adrodd:	Angela Rogers/Lisa Tyler
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud yn y maes hwn. Mae'r polisi absenoldeb oherwydd salwch wedi cael ei ddiwygio i sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael ar adegau priodol, i gefnogi aelodau o staff os ydynt yn sâl. Mae sgwrs am lesiant wedi cael ei hychwanegu at y cyfarfodydd un-i-un sy'n fandadol i staff yn fisol, a chyflwynwyd asesiadau llesiant i gefnogi llesiant parhaus. Mae cyfres o gefnogaeth wedi cael ei darparu ar gyfer staff. Gweithiwyd gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i gytuno ar gyfradd aelodaeth i bartneriaid i gael mynediad i gyfleusterau Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, a hyrwyddwyd y cynnig hwn, ynghyd â diwrnod asesu iechyd. Mae swyddogion AD wedi cael eu hyfforddi yn I-Act, sef cwrs am reoli a hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol, fel y gallant roi cefnogaeth i reolwyr a staff. Mae cylchlythyr misol gyda mynediad at wasanaethau a chynghor hefyd wedi cael ei sefydlu a datblygwyd gwefan er mwyn i staff nad oes ganddynt fynediad at systemau TG, i gael mynediad at wybodaeth hefyd. Mae yna gynllun hefyd i sefydlu swyddogion cymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl.	
Pa heriau a gafwyd?	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 1	Datblygu a gweithredu Strategaeth y Gweithlu.
Cam: H	
Swyddog Adrodd:	Tina Hulme
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Datblygwyd Strategaeth y Gweithlu, a chytunwyd arni, ac mae ganddi raglen lawn ar gyfer ei chyflawni.	
Pa heriau a gafwyd?	
Amherthnasol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 1	Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â Nodweddion
Cam: I	Gwarchodedig.
Swyddogion Adrodd:	Chris Hunt/Harriet Leek/Bridie Saunders/Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	

Rydym wedi cyflwyno llawer o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn unol â'n calendr ymwybyddiaeth blyneddol, ac wedi eu hyrwyddo. Ymhlith yr ymgyrchoedd cydraddoldeb a gyflwynwyd mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Mis Hanes Pobl Ddu, Wythnos Rhyng-ffydd, Ramadan, Mis Hanes LHDT, Mis Pride, Diwrnod Cofio'r Holocost a Diwrnod Ymwybyddiaeth o Ffoaduriaid. Mae'r ymgyrchoedd yn cynnwys adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, prosiectau cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned, cyfryngau cymdeithasol, bwletinâu staff a chyfleoedd hyfforddi i staff.	
Pa heriau a gafwyd?	
Bu aflonyddwch cenedlaethol a rhyngwladol trwy gydol y flwyddyn ac mae hyn wedi cael effaith ar ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn ddadleuol ac rydym wedi gorfod ystyried hyn, gan nad oeddem eisiau ychwanegu at densiynau cymunedol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae'r Cyngor, ac yn enwedig Tîm Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent, wedi dathlu a hyrwyddo dyddiau coffa ers sawl blwyddyn bellach. Mae'n ffordd o hyrwyddo negeseuon allweddol i herio rhagfarn ac yn sicrhau bod negeseuon addas a chywir yn cael eu rhannu ar-lein. Mae yna amrywiaeth enfawr o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth trwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi canolbwyntio ar y rhai allweddol sy'n cyd-fynd â disgwyliadau a chynlluniau Llywodraeth Cymru, a byddwn yn parhau i symud hyn yn ei flaen.	
Amcan: 1 Cam: J	Parhau i fod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac ymdrechu i fod yn weithle cynhwysol i staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae CBST yn parhau i fod yn aelod gweithgar o'r rhwydwaith Cyngorau Balch, ac yn mynd i ddigwyddiadau Pride yn y rhanbarth a Pride Cymru, a pharhaodd i fod yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall tan fis Mawrth 2024. Rydym wedi cael amrywiaeth o argymhellion ac rydym yn teimlo'n gyfforddus bod CBST yn darparu amgylchedd cyflogaeth diogel i bobl sy'n dweud eu bod yn LHDT+. Aeth Aelodau'r Cyngor ati i gadarnhau'n ffurfiol ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i gefnogi digwyddiad Pride Torfaen i'w gynnal ym mis Mehefin 2024, ymhellach i gynnig gan y Cyngorydd Giles Davies. Cadarnhaodd Aelodau'r Cabinet y byddai swyddogion priodol yn parhau i ymgysylltu â Club F.O.D trwy gydol y flwyddyn i sicrhau digwyddiad llwyddiannus.	
Pa heriau a gafwyd?	
Roedd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud ag aelodaeth Stonewall a mentrau eraill sy'n cefnogi pobl LHDT+ wedi dargyfeirio cyfran nodedig o amser swyddogion.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	

Dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol rydym wedi dangos yn weithgar fod CBST yn sefydliad cynhwysol, ac wedi gwneud newidiadau ymarferol, er enghraifft cynnwys toiledau ciwbicl sengl nad ydynt yn benodol i rywedd, ochr yn ochr â thoiledau traddodiadol i ddynion a menywod, wrth ailwampio'r Ganolfan Ddinesig, gan sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfforddus wrth ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael. Rydym hefyd wedi cynnal darpariaeth bwrpasol ar gyfer ieuenctid. Buom yn gweithio gyda Club F.O.D i gyflwyno digwyddiad Pride yn Nhorfaen a rhagwelwn y byddwn yn parhau i gefnogi'r digwyddiad a'r gymuned LHDTG+ yn y ffyrdd hyn wrth symud ymlaen. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 wedi ymrwymo i gyflwyno Canllawiau Trawsnewid yn y Gwaith, i gefnogi unigolion, rheolwyr a chydweithwyr.

Amcan: 1	Datblygu cynllun gweithredu Hyderus o ran Anabledd a'i weithredu.
Cam: K	
Swyddog Adrodd:	Angela Rogers
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae'n parhau i fod yn uchelgais - fodd bynnag mae blaenoriaethau eraill wedi cyfyngu ar ein gallu i symud ymlaen. Bydd hyn yn cael ei ystyried yng nghynllun cyflawni'r flwyddyn nesaf.	
Pa heriau a gafwyd?	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	

Amcan 2 <i>Sicrhau bod hawliau pobl a chymunedau yn cael eu parchu a'u bod yn teimlo'n ddiogel rhag trais a chamdriniaeth</i>	
Amcan: 2	Cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch hawliau'r unigolyn.
Cam: A	
Swyddog Adrodd:	Sarah Paxton
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Yn rhan o'n dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, mae pobl yn cael eu cefnogi i ddod i wybod eu hawliau a'u deall. Un o egwyddorion deddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yw bod gan bobl lais a rheolaeth. Gallwn ddangos y ffordd i bobl at ddewis o wasanaethau eiriolaeth a chymorth eiriolaeth lle bo angen hyn arnynt. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu dewis o gymorth eiriolaeth i alluogi pobl i ddeall eu hawliau ac i gael eu cefnogi i arfer eu hawliau.	
Pa heriau a gafwyd?	
Er y gellir cefnogi pobl i ddeall eu hawliau, gall cyflawni'r canlyniad y maen nhw'n ei ddymuno fod yn heriol.	

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae'r cynnydd yn parhau yn erbyn y cam hwn. Wrth sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am hawliau ar draws dewis o gyfryngau, mae angen datblygu'n barhaus.	
Amcan: 2 Cam: B	Darparu cymorth i ysgolion i ymgorffori tegwch a chydaddoldeb yn eu cynlluniau ysgol a'u polisïau
Swyddog Adrodd:	Alison Dally
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae Ysgolion Hybu Iechyd Torfaen yn darparu polisïau enghreifftiol a chanllawiau i ysgolion am ddewis o feysydd iechyd a llesiant. Er enghraifft, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Addysg Camddefnyddio Sylweddau, Maetheg, Gweithgarwch Corfforol a Pherthnasoedd Cadarnhaol/Gwrth-fwlio. Mae'r holl bolisïau yn deg ac yn seiliedig ar ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.	
Pa heriau a gafwyd?	
Dod o hyd i adnoddau dwyieithog, dibynadwy am ddim i gefnogi polisïau ac arferion iechyd a llesiant.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae'r cynnydd yn erbyn y cam hwn wedi bod yn gyson ac rydym yn hyderus y bydd polisïau a chanllawiau o gymorth i ysgolion. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid (dysgwyr, staff, teuluoedd a llywodraethwyr) ynghylch polisïau, arfer a chynlluniau yn hanfodol.	
Amcan: 2 Cam: C	Sicrhau bod gan holl ysgolion Torfaen strategaeth glir ar gyfer gwella ansawdd dysgu ac addysgu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i leihau amrywiadau mewn ysgolion fel bod pob disgybl, gan gynnwys bechgyn a dysgwyr sy'n agored i niwed, yn gwneud cynnydd priodol dros amser.
Swyddog Adrodd:	Andy Rothwell
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
• Roedd sawl ysgol yn Nhorfaen yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r pecyn cymorth addysgu a dysgu wedi'i ddiweddarau, ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae hwn bellach ar gael i bob ysgol i gefnogi datblygiad addysgu a dysgu yn yr ALI. • Mae 4 ysgol yn rhoi cymorth holistaidd gydag addysgu i ysgolion eraill. • Mae 7 ysgol yn rhoi cymorth dysgu proffesiynol i ysgolion eraill ar draws rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlwm fel Ysgolion Rhwydwaith Dysgu. • Mae pob ysgol yn rhan o raglen asesu a dilyniant cwricwlwm y clwstwr sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar ffocws a chydlynïad.	

- Mae 2 ysgol yn cael cymorth wedi'i deilwra'n arbennig i ddatblygu Addysgu ac Arweinyddiaeth 1 ysgol yng nghategori Estyn o'i gymharu â 4 ysgol yn 2020/2. Tynnwyd 1 ysgol o'r categori yn 2022/23. - Mae 6 ysgol wedi arwain dysgu proffesiynol sy'n cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth ar draws y Gwasanaeth Cyflawni Addysg - Mae pob ysgol yn cymryd rhan yn y prosiect Ymchwiliad Proffesiynol Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar un o bum prif thema. - Mae 'Grŵp Addysgu a Dysgu' y Cwricwlwm i Gymru yn gwella gallu'r ysgol i rwydweithio a rhannu arfer. - Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi ailgynllunio'r ffordd y mae dysgu proffesiynol yn cael ei gynnig i ysgolion.	
Pa heriau a gafwyd?	
Roedd angen i'r ALI a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg barhau i fod yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion yr ysgolion gan eu bod wedi parhau i wynebu heriau yn sgil y pandemig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill: - Dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig a'r rheiny ag ADY - Dysgwyr ôl-16 ac i mewn i ddarpariaeth ôl-16 – lle mae'n bosibl fod straen ac ansicrwydd wedi effeithio ar hyder - Y Blynyddoedd Cynnar lle mae dysgwyr mewn perygl o golli cerrig milltir datblygiadol allweddol ar gyfer datblygiad ieithyddol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol. - Heriau penodol i ddysgwyr trochi'r Gymraeg ar aelwydydd Saesneg eu hiaith, gan gynnwys dysgwyr sy'n pontio o Flynnyddoedd 6-7.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Yn gyffredinol rydym yn falch o ddatblygiad yr addysgu a'r dysgu ar draws yr Awdurdod. Mae'r adolygiad haen-ganol yng Nghymru wedi gweld rhai newidiadau i'r ffordd y mae dysgu proffesiynol a chymorth yn cael eu rhoi i ysgolion, a bydd gofyn ystyried hyn wrth feddwl am y camau nesaf wrth sicrhau bod disgyblion yn cael addysgu a dysgu effeithiol.	
Amcan: 2	Gwella adrodd am achosion o gamdriniaeth, bwlio ac aflonyddiad sy'n seiliedig
Cam: D	ar hunaniaeth mewn ysgolion a chymryd camau priodol fel y bo angen.
Swyddog Adrodd:	Alison Dally
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae Canllawiau a Pholisi Gwrth-fwlio Torfaen ar gyfer Lleoliadau Addysg (2024) wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae cynllun peilot bach mewn ysgolion yn defnyddio'r pecyn meddalwedd diogelu My Concern i gofnodi achosion o fwlio a gwahaniaethu ac adrodd amdanynt. Mae nifer yr achosion o fwlio ac aflonyddu a gadarnhawyd gan staff ysgolion yn cynyddu i gyd-fynd yn agosach ag ystadegau a data cenedlaethol.	

Lluniwyd Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Drafft Torfaen (2024 – 2027) ac mae'n destun ymgynghoriad (Staff Awdurdod Lleol, Plant a Phobl Ifanc, staff ysgolion, DARPL – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).	
Pa heriau a gafwyd?	
Capasiti un swyddog i oruchwylio'r uchod. Nid yw pob ysgol yn yr Awdurdod Lleol yn defnyddio My Concern. Mae'n ymddangos bod ysgolion cynradd yn gyndyn i adrodd am achosion o fwlio a gadarnhawyd. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid yn cymryd llawer o amser.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae'r cynnydd yn erbyn y cam hwn wedi bod yn rheolaidd. Mae ysgolion yn awyddus i ddatblygu fel sefydliadau dysgu gwrth-hiliol.	
Amcan: 2	Monitro lefel achosion o gasineb/troseddau casineb yn Nhorfaen trwy'r Hwb
Cam: E	Diogelwch Cymunedol. Gweithredu unrhyw gamau angenrheidiol
Swyddog Adrodd:	Cath Jones
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Rydym yn parhau i fonitro digwyddiadau casineb a throseddau casineb yn yr Hwb Diogelwch Cymunedol. Ceir adroddiadau misol gan Heddlu Gwent am droseddau casineb, a rhoddir cymorth partneriaeth ar waith lle bo angen. Ceir diweddariadau misol am ddigwyddiadau casineb a thensiynau cymunedol ehangach gan y tîm cydlyniant ac rydym yn eu cefnogi gyda gwaith yn yr ysgol i herio barn (fel casineb at fenywod) lle nodwyd ei fod yn fater.	
Pa heriau a gafwyd?	
Dim	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae diweddariadau am densiwn cymunedol wedi gwella ein dealltwriaeth am faterion yn ein cymunedau ac wedi ein galluogi i dargedu adnoddau'n well lle bo'u hangen.	
Amcan: 2	Darparu hyfforddiant staff sy'n codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a'r iaith
Cam: F	Gymraeg, gan rymuso staff i adnabod gwahaniaethu a stereoteipio a delio â nhw.
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cymerodd Tîm Arweinyddiaeth estynedig y Cyngor ran mewn hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth gyda No Boundaries ym mis Chwefror 2024, a ariannwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd hyn yn dilyn Seminarau i Aelodau gan No Boundaries am yr un pwnc yn gynharach yn y flwyddyn. Parhau i ddarparu hyfforddiant am y Gymraeg.	
Pa heriau a gafwyd?	

Cafodd swydd Rheolwr Cydraddoldeb, Partneriaethau a Pholisi ei dileu o'r strwythur staff ar ôl i Sarah Tipping adael y sefydliad ddechrau haf 2023. Oherwydd y pwysau o ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028, nid oedd capasiti o fewn Uned Cefnogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod o hyd i hyfforddiant arall, nac yn wir i ddod i gyswllt â thimau eraill ar gyfer unrhyw beth y gallent fod wedi dod o hyd iddo eu hunain.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Fe wnaeth effeithiau pandemig Covid ohirio cynnydd o ran datblygu ein cynnig e-ddysgu, er bod hyn bellach yn dod yn ei flaen yn dda (gweler yr ymateb i Gam 1.A.). Un o'r pethau cadarnhaol i ddod o'r pandemig fodd bynnag, oedd ei fod wedi creu diwylliant o gynnal mwy o gyfarfodydd rhwng swyddogion cydraddoldeb yng Ngwent a hefyd ar raddfa genedlaethol. Rydym wedi datblygu cysylltiadau cryfach ac, yn ganlyniad, yn elwa ar wybodaeth, cysylltiadau ac argymhellion ein gilydd, gan weithio ar y cyd ac yn fwy effeithlon a rhannu profiadau o ddarparwyr hyfforddiant ac adnoddau eraill.	
Amcan: 2 Cam: G	Gweithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i adnabod digwyddiadau a delio â nhw. Mae hyn yn cynnwys materion o gam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn dynion.
Swyddog Adrodd:	Amy Thomas (arweinydd rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
▪ Darparu adnodd pwrpasol er mwyn gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar draws yr Awdurdod Lleol ▪ Parhau i fod yn aelod o Grŵp Cyflawni Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (sy'n gyrru gweithrediad y strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ranbarthol a chenedlaethol) ▪ Cefnogi Grŵp Cynllunio rhanbarthol Adolygiadau Lladdiadau Domestig fel aelod allweddol o'r grŵp, wrth adolygu, rhannu a lledaenu'r hyn a ddysgwyd o Laddiadau Domestig ▪ Cefnogi effeithiolrwydd prosesau MARAC i ddarparu amddiffyniad a chefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys adolygu Protocol Gweithredu MARAC ▪ Cynnal ymgyrchoedd ynghylch Diwrnod Rhuban Gwyn a Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gam-drin Pobl Hŷn ▪ Cynnal asesiad anghenion cynhwysfawr ynghylch mynd i'r afael â chyflawni	
Pa heriau a gafwyd?	
▪ Capasiti'r gweithlu i fynd i'r hyfforddiant – mae niferoedd hyfforddi'n isel ar gyfer y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ▪ Capasiti'r gweithlu i fynd i gyfarfodydd a dod o hyd i'r amser/adnoddau i yrru elfennau o'r cynllun cyflawni sy'n berthnasol i CBST yn eu blaenau ▪ Argaeledd cyllid ac adnoddau i dyfu, datblygu a chynnal gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Bydd cynnydd yn erbyn y cam gweithredu hwn yn barhaus, fodd bynnag, mae'r cynnydd o fewn CBST wedi bod yn araf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae rhywfaint o waith cadarn yn digwydd mewn rhai meysydd yn CBST er mwyn gweithio mewn partneriaeth i adnabod Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac i fynd i'r afael â nhw (Diogelwch Cymunedol, datblygu'r gweithlu ac Arweinwyr Diogelu – corfforaethol ac addysg) ac mae'r meysydd hyn wedi ymrwymo. Mae gweithredu'r Ddeddf yn berthnasol ar draws y Cyngor cyfan felly mae yna rai adrannau lle gallai gweithio mewn partneriaeth wella.

Eleni, trwy'r asesiad anghenion ar gyfer taelo'r cyflawni a gwaith ar y cyd â Phartneriaeth y Ddyletswydd Trais Difrifol, mae proffil y broblem o gyflawni ar gyfer Torfaen wedi amlinellu rhywfaint o ddata sy'n destun pryder. Er enghraifft, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

- Roedd 15,032 o droseddau Trais yn Erbyn Menywod a Merched; roedd 2672 o'r rhain yn Nhorfaen
- Torfaen yw'r ail yn y rhanbarth am droseddau Trais yn Erbyn Menywod a Merched pan gaiff y data eu haddasu ar gyfer ffigurau'r boblogaeth
- Roedd gan Dorfaen 762 o achosion o Gam-drin Domestig, 88 trosedd o dreisio, a 148 trosedd rywiol arall
- Dynion 10 - 17 oed yw nifer uchaf y bobl dan amheuaeth/troseddwyr Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol, a merched 10 - 17 oed yw nifer uchaf y dioddefwyr – mae'n debygol fod hyn yn gysylltiedig â cham-drin cyfoedion a chamfanteisio gan gymheiriaid gan mai'r ysgol/coleg oedd yr ail leoliad yr adroddwyd amdano fwyaf ar gyfer troseddau rhywiol difrifol.
- Mae Torfaen wedi gweld cynnydd o 34% mewn Troseddau Treisio a Rhywiol Difrifol dros y pum mlynedd ddiwethaf - Llantarnam sydd â'r cyfartaledd pum-mlynedd uchaf ac yna Abersychan a Fairwater.
- Mae gan Dorfaen chwe ward o fewn yr 20 ward uchaf yng Ngwent sydd â'r gyfradd droseddu uchaf ar gyfer Troseddau Treisio a Rhywiol Difrifol
- Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Rhagfyr 2023 roedd 7 o drigolion Torfaen yn agored i dasgio MATAC (Tasgio a Chydlyn Amlasiantaeth) gan eu bod yn cael eu hystyried yn gyflawnwyr ailadroddus risg-uchel; roedd 7 o blant/pobl ifanc yn gysylltiedig â'r enwau hyn
- Mae cynnydd flwyddyn-ar-flwyddyn o hyd mewn atgyfeiriadau yn MARAC ar draws yr Awdurdod Lleol
- Mae stelcian ac aflonyddu wedi cynyddu 26% yn Nhorfaen yn ystod y cyfnod pum-mlynedd diwethaf - Abersychan sydd â'r cyfartaledd 5-mlynedd uchaf, ac yna Blaenafon a Llantarnam

Yng ngolau hyn, mae angen mwy o ymrwymiad a buddsoddiad gan Aelodau ac uwch-arweinwyr i weithredu trefniadau ar gyfer atal, amddiffyn a chefnogi trais ar sail rhywedd; yn enwedig mynd i'r afael â chyflawni troseddau. Heb hynny, dydyn ni ddim yn mynd i weld lleihad yn y troseddau a gyflawnir a lladdiadau domestig, a bydd angen cynyddol am wasanaethau i ddioddefwyr a galw cynyddol am ofal cymdeithasol, tai a gwasanaethau ehangach fel defnyddio sylweddau, iechyd meddwl ayb.

Amcan: 2	Gweithio gyda phartneriaid i rwystro eithafiaeth dreisgar a chodi ymwybyddiaeth ohoni.
Cam: H	
Swyddog Adrodd:	Cath Jones
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i atal eithafiaeth dreisgar a chodi ymwybyddiaeth ohoni trwy Channel, Prevent Gwent a Grŵp Amddiffyn, Diogelu a Pharodrwydd Torfaen. Er mwyn gwella gwaith atal yn Nhorfaen, rydym yn gweithio ar grŵp Prevent Torfaen gydag asesiad risg sy'n benodol i Dorfaen yn hytrach nag asesiad trosfwaol blaenorol Gwent. Rhoddwyd hyfforddiant i dros 300 o gydweithwyr yn 23/24 ac mae modiwlau dysgu wyneb-yn-wyneb newydd yn cael eu datblygu'n genedlaethol er mwyn eu cyflwyno'n lleol.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae monitro lefelau hyfforddiant yn gallu bod yn anodd gan nad yw'r Swyddfa Gartref yn gallu olrhain nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant Prevent ar-lein. Gweithio tuag at system newydd i wella hyn ar gyfer Torfaen, gan ddefnyddio Thingi.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Gwneud gwelliannau i symud at ffocws lleol yn hytrach na ffocws rhanbarthol. Datblygu ffyrdd o wella hyfforddiant yn Nhorfaen.	
Amcan: 2	Annog amrywiaeth cymunedol.
Cam: I	
Swyddog Adrodd:	Chris Hunt
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol a'r Tîm Cydlyniant Cymunedol yn parhau i weithio ar brosiectau bach sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn Nhorfaen, gan ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol a'u cynnwys wrth ddatblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ar sail anghenion y gymuned honno a'r gymuned ehangach. Cynhaliodd y Tîm Cydlyniant ddigwyddiad cymdeithasol pellach gyda gwesteion o Wcráin, a ddaeth â dros 50 o westeion (a'u lletywyr) sydd wedi cael eu hadsefydlu yn Nhorfaen, at ei gilydd. Roedd cinio a lluniaeth ar gael a gweithgareddau i'r plant; teganau gwynt, cerddoriaeth, celf a chrefft, ac roedd hyn yn gymorth i greu prynhawn difyr lle cyfarfu gwesteion a'u lletywyr i rwydweithio, rhannu profiadau ac adeiladu grwpiau cymorth cymheiriaid i barhau i gryfhau eu llesiant. Ar y cyd ag Amgueddfa Torfaen, casglwyd archifau am adsefydlu ffoaduriaid dros y blynyddoedd a hanes Torfaen ac Wcráin mewn cyflwyniad i ddangos yr amrywiaeth yn Nhorfaen. Mae hyrwyddo dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb dros y cyfnod hwn wedi cynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Hanes LHDT, Wythnos Rhyng-ffydd a Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid fel Heddlu Gwent i gynnal Arddangosfa Rhyng-ffydd a rhoi cyflwyniadau mewn gwasanaethau ysgol am Droseddau Casineb, ynghyd â chyflwyno Arddangosfa Windrush	

trwy leoliadau amrywiol ar draws Torfaen i ddangos straeon am Genhedlaeth y Windrush gan Race Cymru.

Ar wahân i'r ymgyrchoedd, rydym wedi cefnogi prosiect cymunedol trwy ein cyllid grant bach. Creodd Amgueddfa Torfaen ac Ysgol Uwchradd Gorllewin Mynwy arddangosfa yn dathlu Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy ganolbwyntio ar eu traddodiadau, eu diwylliant a'u treftadaeth. Gweithiodd y prosiect ochr yn ochr â'r bardd lleol, Patrick Jones, a'r ffotograffydd, Jon Poutney. Mae'r arddangosfa i'w gweld o hyd yn yr Amgueddfa ac mae'n eirioli dros amrywiaeth yn ein cymuned.

Cynhaliwyd gweithgareddau mewn Ysgolion Cynradd trwy gydol y flwyddyn, mewn 7 ysgol yn Nhorfaen. Mae'r gweithdy hwn yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol ymhlith disgyblion. Mae'r gweithdy hwn wedi targedu dros 200 o blant ym Mlwyddyn 5 a 6.

Mae ein podlediad Valleys Voices yn dal i dyfu ac mae'r podlediad rhanbarthol yn cynnig llwyfan i leisiau sydd ddim yn cael eu clywed mor aml, gan rannu straeon lleol gan aelodau o gymunedau lleiafrifol o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae'r penodau a ychwanegwyd eleni yn cynnwys stori mewn dwy ran am ffoadur o Wcráin sydd wedi dianc rhag ymosodiad Rwsia, a goroeswr yr Holocaust sydd wedi rhannu ei stori.

Pa heriau a gafwyd?

Mae ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yn parhau i fod yn her.

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Mae angen i'r gwaith barhau i feithrin cysylltiadau da gan fod ein cymuned yn dod yn fwy amrywiol ac mae'r drafodaeth ehangach, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, yn rhannu pobl yn gynyddol. Bydd y Tîm Cydlyniant yn parhau i edrych ar y ffyrdd gorau o ddod â phobl at ei gilydd, boed hynny wyneb yn wyneb neu mewn mannau rhithwir, gan greu cyfleoedd i rannu gwybodaeth gywir gyda staff a'r cymunedau lleol.

Amcan: 2	Monitro tensiynau mewn cymunedau.
Cam: J	
Swyddog Adrodd:	Chris Hunt

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?

Rydym yn parhau i ddeall tensiynau cymunedol parhaus, a rhai sy'n dod i'r amlwg, ac yn rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â nhw yn ôl yr angen.

Mae gwaith i'n cefnogi i fonitro tensiwn a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn parhau. Rydym yn ymgysylltu â chyfarfodydd amlasiantaeth, tasgio partneriaeth bob pythefnos, grwpiau CONTEST a Prevent. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfarfodydd a sefydlwyd gydag Uned Cydlyniant Heddlu Gwent a'n cymheiriaid yn Nwyrain Gwent lle rydym yn cyfnewid gwybodaeth am densiynau yn yr ardal ac ar draws Gwent.

Rydym yn coladu traciwr tensiynau misol ar gyfer unrhyw densiynau lleol a/neu genedlaethol sydd wedi dod i'r amlwg. Caiff ei rannu â phartneriaid perthnasol at ddibenion gwybodaeth ac i liniaru unrhyw densiynau pan fo angen. Mae'r Tîm Cydlyniant hefyd yn mynychu bwrdd rhanbarthol Contest Mae rolau allweddol y grŵp yn cynnwys: • Y newyddion diweddaraf am densiynau cydlyniant • Ymgymryd ag ymarfer i fapio cyfleoedd hyfforddi • Adrodd yn fisol am densiynau - a gyflwynir gan ddadansoddwr yr Heddlu rhanbarthol.	
Pa heriau a gafwyd?	
Ni adroddwyd am unrhyw heriau	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Parhau i ddarparu adroddiadau am fonitro tensiwn trwy sianeli y cytunwyd arnynt.	
Amcan: 2	Cysylltu â dinasyddion yr UE mewn perthynas â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i
Cam: K	Ddinasyddion yr UE.
Swyddog Adrodd:	Chris Hunt
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE bellach ar gau	
Pa heriau a gafwyd?	
Amherthnasol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amherthnasol – mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE bellach ar gau	
Amcan: 2	Parhau gydag ymgysylltiad yr Awdurdod Lleol â Chynllun Adsefydlu Ffoaduriaid y
Cam: L	DU.
Swyddog Adrodd:	Chris Hunt
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
• Mae Torfaen wedi parhau i gefnogi pobl o Wcráin sy'n symud i'r Fwrdeistref trwy'r cynllun 'Cartrefi i Wcráin'. Rydym wedi cefnogi 130+ o bobl o Wcráin ers dechrau'r Cynllun, ac mae'r ALL yn parhau i chwarae rhan weithgar wrth gefnogi noddwyr/lletywyr a'u gwesteion i gael mynediad at wasanaethau ac i integreiddio i'w bywydau newydd yng Nghymru. • Mae dros 50% o bobl Wcráin bellach yn byw'n annibynnol • Mae'r ALL yn parhau i gynnig rhywfaint o gymorth ariannol trwy grant 'symud ymlaen' gwerth £1500 i'w cynorthwyo i symud ymlaen i'r sector llety rhent preifat.	

- Rydym yn parhau i dalu ychwanegiad nawdd / lletywr ar ben y taliad 'diolch' cenedlaethol i gymell lletywyr i barhau â'u trefniadau lletya.
- Yn rhan o'r fframwaith llety Cartrefi i Wcráin, cefnogodd Torfaen Lywodraeth Cymru (LIC) i adleoli pobl o Wcráin a gyrhaeddodd trwy'r cynllun uwch-noddwyr (canolfannau croeso) i ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r ffaith fod pob canolfan groeso ledled Cymru wedi cau yn amlygu ymdrechion cydlynol a gwaith tîm LIC, Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru ac awdurdodau lleol.
- Mae Torfaen yn parhau i gynnig cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a theuluoedd o Wcráin, gan roi sylw i ystod eang o anghenion a nodwyd. Mae'r dull holistaidd hwn yn cynnwys rhoi cymorth gyda thai, gofal iechyd, addysg, cyflogaeth ac integreiddio cymdeithasol. Trwy weithio'n agos gydag asiantaethau amrywiol a sefydliadau cymunedol, mae Torfaen yn sicrhau bod pobl Wcráin yn cael yr adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i ailadeiladu eu bywydau ac integreiddio i'r gymuned leol. Mae'r ymrwymiad parhaus hwn yn amlygu ymroddiad Torfaen i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol ac esblygol y rheiny y mae'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio arnynt.
- Mae Torfaen wedi parhau i gefnogi Adsefydlu Dinasyddion Affganistan i'r Fwrdeistref gyda'r teulu diweddaraf a gyrhaeddodd trwy Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan. Cyrhaeddodd teulu o 4 ym mis Mawrth 2023.
- Mae Torfaen wedi croesawu 12 unigolyn i'r Fwrdeistref yn 2023/24 trwy'r Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches. Mae'r rhain yn cynnwys tri theulu, sef chwech oedolyn a chwe phlentyn.
- Rydym yn dal i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda Clearsprings Ready Homes a phartneriaid i sicrhau bod yr holl gymorth priodol ar gael i newydd-ddyfodiaid.

Pa heriau a gafwyd?

- Mae fforddadwyedd ac argaeledd eiddo addas yn parhau i fod yn her i bobl o Wcráin sydd eisiau symud i fyw'n annibynnol.
- Mae rhwystrau iaith wedi atal pobl Wcráin rhag cadw swyddi sy'n cyd-fynd â'u lefelau sgiliau, sy'n aml yn uchel
- Cefnogi gwasgariad Ceiswyr Lloches gyda chyllid cyfyngedig

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

- Pwysigrwydd Cymorth Cynhwysfawr - mae rhoi cymorth holistaidd sy'n mynd i'r afael â thai, gofal iechyd, addysg, cyflogaeth ac integreiddio cymdeithasol yn hanfodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu ailadeiladu eu bywydau'n effeithiol ac integreiddio'n effeithiol i'r gymuned
- Mae'r her parhaus o ddod o hyd i dai fforddiadwy ac addas yn amlygu'r angen am ymdrechion parhaus i gynyddu argaeledd eiddo. Gall hyn gynnwys gweithio gyda darparwyr tai ac archwilio atebion tai arloesol.
- Cyllid - bydd sicrhau cyllid cynaliadwy a digonol yn hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau cymorth a'u hehangu.
- Mae rhwystrau iaith wedi bod yn her sylweddol, yn enwedig wrth helpu ffoaduriaid i gadw swyddi sy'n cyd-fynd â'u lefelau sgiliau. Dylai cynlluniau yn y dyfodol gynnwys gwasanaethau cymorth iaith gwell, er mwyn gwella canlyniadau cyflogaeth ac integreiddio cyffredinol.

Amcan: 2	Ymgymryd ag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr.
Cam: M	
Swyddog Adrodd:	Adrian Wilcock
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cyflwynwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft Torfaen 2020, sy'n rhychwantu'r cyfnod 2020-2033, i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020; a chafodd gymeradwyaeth derfynol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Y Trefnydd a'r Prif Chwip, ym mis Gorffennaf 2024. Yn dilyn cyfieithiad Cymraeg llawn, cyhoeddwyd yr Asesiad ar dudalennau gwe cynllunio a thai 'r Cyngor ym mis Medi 2024.	
Pa heriau a gafwyd?	
Y brif her oedd yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Asesiad, oherwydd prinder staff difrifol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
1. Gwnaeth Grŵp Llywio Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (a oedd yn cynnwys swyddogion tai, iechyd yr amgylchedd, cydraddoldeb, ymchwil a chynllunio; Gwasanaeth Addysg Teithwyr Torfaen; Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (Grŵp Pobl); cynrychiolwyr o gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol Torfaen; gyda chyngor dadansoddol gan Opinion Research Services (ORS) Ltd; mewnbwn gan Travelling Ahead; a goruchwyliaeth yr Aelodau Gweithredol dros Wasanaethau Oedolion a Thai; Yr Economi, Sgiliau ac Adfywio; a Llywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad) waith ragorol wrth sicrhau ymateb ar lefel uchel gan gymuned Sipsiwn a Theithwyr Torfaen i'r holiadur am anghenion llety, a llunio Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Torfaen yn unol â Chanllawiau 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr' Llywodraeth Cymru, 2015. 2. Ymdrechion yn y dyfodol ac i'w hystyried yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028:- A. Monitro a chyflwyno meysydd Sipsiwn a Theithwyr parhaol newydd fel y nodwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Torfaen 2020 (Simon Rose) – Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion llety heb eu diwallu, ar gyfer meysydd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a thramwy sydd wedi codi yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr; sylwer na nodwyd unrhyw angen am faes tramwy. B. Mynd i'r afael ag unrhyw angen heb ei ddiwallu am feysydd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a thramwy yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (Adrian Wilcock) – Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion llety heb eu diwallu, ar gyfer meysydd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a thramwy, sydd wedi codi yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen, sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Bydd y ddyletswydd hon yn cael ei hystyried yn y Papur Cefndir Tai sydd i'w lunio ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen: Strategaeth a Ffeirir (disgwylir Haf 2025); gan gynnwys asesiad o unrhyw angen ychwanegol o 2033-2037. Os caiff ei nodi, bydd unrhyw angen heb ei ddiwallu	

yn cael sylw gan ddyraniad(au) safle yng **Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen wedi'i Adneuo** (disgwylir Haf 2026). Yn ogystal, mae **Llywodraeth Cymru** yn bwriadu comisiynu (24/25) sefydliad allanol i ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn deall eu hanghenion mewn perthynas â darparu cyfleusterau tramwy, a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall eu sylfaen dystiolaeth leol; a gwneud **argymhellion ar gyfer y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer safleoedd tramwy yn Ne Cymru yn 2025**. Bydd angen i swyddogion (iechyd yr amgylchedd, cynllunio a thai) ymgysylltu â'r gwaith hwn; a bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw argymhellion yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi'i Adneuo os oes angen.

- C. Llundio Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd Torfaen yn 2026/27 (Adrian Wilcock)** – mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru erbyn 24 Chwefror 2027. Felly, bydd Grŵp Llywio'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ynghyd â Hyrwyddwr Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor) yn dechrau ar y gwaith hwn yn Haf 2026; gan nodi y bydd y Canllawiau ar gyfer Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015 yn cael eu hadolygu cyn hynny.

Amcan 3

Gweithio i ddileu'r anfanteision a'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall

Amcan: 3	Gwella amgylchedd adeiledig cymunedol Torfaen a hygyrchedd ehangach adeiladau cyhoeddus a mannau gwaith y Cyngor mewn modd fforddiadwy.
Cam: A	
Swyddog Adrodd:	Dan Morris
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Rydym yn cyflwyno rhaglen barhaus o welliannau adeiladu i sicrhau bod y prif weithleoedd ar draws y Fwrdeistref yn hygyrch i bawb, ac mae hyn wedi golygu ysgolion yn bennaf yn ystod 2023/24. Rydym wedi cyflawni nifer o gamau gweithredu i sicrhau, lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol, nad oes rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau ac adeiladau. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys rampiau, lifftiau, drysau mwy llydan, drysau sy'n rheoli mynediad, toiledau hygyrch newydd, gwelliannau i'r cynllun lliwiau synhwyraidd ar gyfer y golwg, cynnal a chadw toiledau hygyrch, ail-farcio mannau parcio ceir hygyrch sydd ynghlwm wrth adeiladau ayb. Mae'r holl waith yn cydymffurfio â BS8300 sy'n ganllaw arfer gorau a Rhan M (Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) y Rheoliadau Adeiladu.	
Pa heriau a gafwyd?	
Dim digon o adnoddau, cyfyngiadau ariannol, a staffio	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Targedu cronfeydd cyfyngedig i ofynion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Hefyd, mae'r holl waith newydd yn cydymffurfio â BS8300 (canllaw arfer gorau) a Rhan M y Rheoliadau Adeiladu.	
Amcan: 3	Parhau â'r broses flaenoriaethu er mwyn cael gwelliannau o fewn yr adnoddau sydd ar gael a bod y gwelliannau yn cael eu targedu er mwyn rhoi'r budd mwyaf i'r gymuned a manteision cynhwysol.
Cam: B	

Swyddog Adrodd:	Dan Morris
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae gwaith cynnal a chadw / gwella eiddo sy'n seiliedig ar arolygon cyflwr ar sail tystiolaeth ar draws ystâd gyfan y Cyngor, yn cael eu hadolygu/hailystyried bob blwyddyn, o leiaf. Mae'r broses flaenoriaethu hon yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, fod rhwystrau posibl at gael mynediad at gyfleusterau yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu ar gyfer cyllid/gweithredu lle bo adnoddau'n caniatáu. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd mewn ysgolion yn seiliedig ar ymweliadau Therapyddion Galwedigaethol hefyd.	
Pa heriau a gafwyd?	
Dim digon o adnoddau, cyfyngiadau ariannol, a staffio	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Targedu cronfeydd cyfyngedig at ofynion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Hefyd, mae'r holl waith newydd yn cydymffurfio â BS8300 (canllaw arfer gorau) a Rhan M y Rheoliadau Adeiladu.	
Amcan: 3 Cam: C	Parhau â'r broses flaenoriaethu i weithredu a delio gyda phroblemau hygyrchedd o fewn rhaglen adnewyddu a thrwsio'r Cyngor
Swyddog Adrodd:	Dan Morris
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae rhaglen adnewyddu a thrwsio'r Cyngor yn helpu i gael gwared ar rwystrau i wasanaethau ac adeiladau. Lle y bo'n bosibl, mae'r gwaith cynnal a chadw yr ydym wedi ei gynllunio yn sicrhau bod adeiladau yn hygyrch, gan gynnwys sicrhau bod drysau newydd yn ddigon llydan, lliwiau cyferbyniol yn cael eu defnyddio mewn cynlluniau ailaddurno, lifftiau/dolenni sain/drysau awtomatig yn cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd a'u cadw i weithio'n dda, defnyddio arwyddion i ddangos y ffordd, ayb.	
Pa heriau a gafwyd?	
Dim digon o adnoddau, cyfyngiadau ariannol, a staffio	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Targedu cronfeydd cyfyngedig at ofynion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Hefyd, mae'r holl waith newydd yn cydymffurfio â BS8300 (canllaw arfer gorau) a Rhan M y Rheoliadau Adeiladu.	
Amcan: 3 Cam: D	Parhau i weithredu nifer o gynlluniau. Yn nodweddiadol bydd y rhain yn cynnwys cael gwared ar rwystrau ffisegol i fynediad i adeiladau ar draws asedau adeiladau'r Cyngor. Hefyd yn berthnasol i leoliadau cymunedol sy'n effeithio ar symudedd a mynediad pobl anabl ar ffyrdd cyhoeddus a llwybrau cyhoeddus, er enghraifft, cyflwyno cyrbau isel gan ddefnyddio arian cyfalaf y Cyngor ei hun a thrwy gyfrwng ffynonellau ariannu eraill, gan gynnwys Llwybrau Diogel yn y Gymuned.
Swyddog Adrodd:	Donna Edwards-John

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?
Gosodwyd cyrbau isel amrywiol gan sicrhau bod y rhwydwaith yn fwy hygyrch trwy Gyllid Teithio Llesol. Dewiswyd y lleoliadau trwy asesiad blaenoriaethu Teithio Llesol. Gosodwyd cyrbau isel hefyd o gyllideb Cyfalaf CBST mewn ymateb i ymholiadau penodol a gafwyd ac a aseswyd yn unigol. Gosodwyd mannau storio beiciau/sgwteri – crëwyd Cynlluniau Teithio Llesol i Ysgolion mewn sawl ysgol ac maen nhw wedi nodi rhwystrau sy'n atal disgyblion rhag mynd â beiciau/sgwteri i safleoedd ysgol a diffyg cyfleusterau storio. Trwy gyllid Teithio Llesol darparwyd mannau storio ac maen nhw'n cael eu defnyddio gan ddisgyblion. Mannau Trwsio – Gosodwyd y man trwsio cyntaf yn Nhorfaen yng Nghanolfan Treftadaeth Blaenafon ar ôl i drigolion ofyn am gymorth i drwsio beiciau, gan annog teithio Llesol a chynaliadwyedd a lleihau nifer y beiciau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Llwybr cyswllt i Ysgol Gynradd Griffithstown o Dŷ Panteg – wedi cwblhau'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer yr Ysgol, nodwyd nad oedd rhieni'n cael eu hannog i ddefnyddio'r cyfleuster parcio a chamu rhagorol yn Nhŷ Panteg wrth fynd â'u plant i'r ysgol a'u codi, oherwydd y broblem o gerdded trwy'r fynedfa a oedd yn fynedfa gyfunol i gerbydau a cherddwyr. Gosodwyd llwybr cyswllt newydd yn Nhŷ Panteg gan roi mynediad diogel i gerddwyr i'r llwybr sy'n arwain i mewn i fynedfa'r ysgol. Mae man storio beiciau / sgwteri hefyd wedi cael ei osod ar y safle er mwyn hyrwyddo teithio Llesol. Mae estyniad i'r llwybr a rennir i mewn i Ysgol Gynradd Llantarnam sy'n gwbl hygyrch wedi'i osod trwy Gyllid Teithio Llesol, ac mae cyllid Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi cael ei ymestyn gan ddefnyddio cyllid teithio Llesol o amgylch perimedr cae Court Farm sy'n cysylltu ag Ystâd Ddiwydiannol Llantarnam, i baratoi at y bont droed newydd sydd wedi'i chynllunio at yr ystâd ddiwydiannol. Mae'r llwybr hefyd wedi rhoi mynediad i James Prosser Way ac mae gât arall i gerddwyr wedi'i gosod ar ochr ddwyreiniol yr ysgol, gan annog teithio Llesol i safle'r ysgol. Yn ogystal â chyrbau isel ychwanegol yn yr ardal. Croesfan Sebra yn Brangwyn Avenue – wedi cwblhau'r Cynllun Teithio Llesol i Ysgolion, nodwyd dros sawl blwyddyn fod angen man croesi diogel yn y lleoliad. Gosodwyd croesfan sebra gyda chyllid teithio Llesol gan annog teithiau Llesol. Cwmbrân Drive Gan barhau o ddechrau'r llynedd, mae gwelliannau teithio Llesol pellach yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer rhannau eraill o Cwmbran Drive. Rhagwelir y bydd rhywfaint o waith adeiladu yn cael ei gwblhau yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol hon a byddwn yn adrodd am hyn y flwyddyn nesaf. Ymgynghori ac Ymgysylltu Mae'r Tîm Teithio Llesol yn mynd i Fforwm Mynediad Torfaen yn rheolaidd i gasglu adborth am lwybrau, a chynhelir cyfarfodydd ar-y-safle i gerdded ar hyd llwybrau pan ofynnir amdanynt, i edrych ar unrhyw faterion. Rhan bwysig o deithio Llesol yw ymgynghori â phob gallu i annog teithio Llesol sy'n gwbl gynhwysol.
Pa heriau a gafwyd?
Cafwyd problemau yn ymwneud â'r tywydd a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth ni

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Lle mae gwaith wedi cael ei wneud mae wedi annog teithiau llesol ymhellach. Ymgynghori pellach â thrigolion i fwydo i mewn i gynlluniau.	
Amcan: 3 Cam: E	Drwy gynnwys gwelliannau hygyrchedd ffisegol yn y broses reoli stadau safonol.
Swyddog Adrodd:	Dan Morris
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cafodd 10 ysgol waith wedi ei wneud: - Sant Alban – teclynau codi, lifftiau, rampiau, lledaenu drysau, toiledau hygyrch, rheiliau llaw. - Ysgol Gynradd Pontnewydd – unedau rheoli mynediad a lifft platfform - Ysgol Gynradd Llantarnam – gwaith ar ddrysau mynediad a diogelwch - Ysgol Gyfun Gwynllyw – 2 doiled hygyrch - Ysgol Gynradd Greenmeadow – Gwaith ar gyfer pobl â nam ar eu golwg - Ysgol Bro Onnen - Gwaith ar gyfer pobl â nam ar eu golwg - Ysgol Gynradd Glanyrafon – rheoli mynediad trwy ddrysau - Ysgol Gynradd Griffithstown – rheoli mynediad trwy ddrysau a lifft platfform - Padre Pio - Gwaith ar gyfer pobl a nam ar eu golwg - Ysgol Gynradd Ponthir – rheiliau llaw	
Pa heriau a gafwyd?	
Yr amserlen o weithio o fewn gwyliau ysgol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 3 Cam: F	Monitro pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, a darparu rhaglenni cymorth i helpu unigolion i sicrhau gwaith, addysg neu hyfforddiant
Swyddog Adrodd:	Gareth Jones
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Da. Rydym wedi sefydlu prosesau monitro a chymorth ar gyfer holl ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn yr ysgol sydd wedi'u pennu fel disgyblion sydd 'mewn perygl' o ddod yn NEET, ac rydym yn gweithio gyda'r ysgolion uwchradd ar atgyfeiriadau at brosiect Ysbrydoli ar gyfer y rheiny y mae'r ysgol yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae gennym swyddog Ysbrydoli cyswllt ym mhob ysgol uwchradd. Rydym yn targedu POB unigolyn ifanc sy'n gadael ym mlwyddyn 11 ond gyda phwyslais arbennig ar y rheiny sydd heb unrhyw leoliad addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i fynd iddo fel lleoliad ôl-16, neu sydd ddim yn sicr o'u lleoliad, ac rydym yn cyfeirio cymorth ar eu cyfer ac yn darparu cymorth ar sail anghenion ar eu cyfer, gan	

gynnwys ymgysylltu; mynediad at hyfforddiant ychwanegol a thrwyddedau galwedigaethol; trafnidiaeth ayb. Rydym hefyd yn cynnig cymorth un-i-un sylweddol i rai pobl ifanc (100+) i helpu i'w cael nhw tuag at ddarpariaeth addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac i mewn iddi. Roedd mynediad at gyllid a staff prosiect Ysbrydoli yn hanfodol i gefnogi pobl ifanc a helpu i leihau rhai o'r rhwystrau a grëwyd, gan gynnwys rhwystrau ariannol a diffyg presenoldeb/ymgysylltu yn yr ysgol yn flaenorol.
Pa heriau a gafwyd?
1. Mwy o bobl ifanc yn gadael ar ôl blwyddyn 11 gyda rhwystrau i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys gorbryder a straen llawer yn uwch; diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 briodol a lleol; a rhwystrau eraill. Mae materion a gododd yn sgil COVID wedi creu rhai o'r materion ychwanegol hyn ymhlith rhai o'r bobl ifanc a'u teuluoedd ac mae'n ei gwneud yn anoddach ymgysylltu â nhw ac yn eu gwneud nhw'n fwy gorbryderus wrth symud ymlaen i ddarpariaeth addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. 2. Diffyg hyfforddiant ac addysg alwedigaethol ôl-16 lleol priodol. Er enghraifft. mae'r holl gyrsiau AB galwedigaethol sydd ar gael i'r rheiny sy'n gadael ym mlwyddyn 11 y tu allan i ardaloedd Cyngor Torfaen e.e. Cross Keys; Casnewydd; Glyn Ebwy ac mae hyn yn creu rhwystr arall i rai pobl ifanc rhag cael mynediad i gyrsiau. Mae'r darparwyr Twf Swyddi Cymru+ sydd hefyd yn cael eu hariannu i weithio gyda phobl ifanc wedi iddynt adael yr ysgol yn llawn yn gyffredinol, neu'n gofyn i'r unigolyn ifanc ddod o hyd i'w leoliad gwaith ei hun, sydd eto'n creu her go iawn. 3. Diffyg gwybodaeth am opsiynau a disgwyliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 ymhlith pobl ifanc; teuluoedd ac mewn rhai achosion, ysgolion. Fe wnaethon ni greu llyfryn opsiynau ôl-16 ar gyfer pob disgybl, a thalu amdanynt, ond roedden ni'n dibynnu ar ysgolion i'w ddosbarthu ymhlith yr holl ddisgyblion i bob pwrpas. Mae yna ddiffyg cyfleoedd cyn-16 i brofi gweithgarwch galwedigaethol mewn ysgolion hefyd, i roi mwy o syniad i bobl ifanc o ddisgwyliadau cyflogwyr. Fe wnaethon ni gyflwyno rhai cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer rhai pobl ifanc o fewn y prosiect Ysbrydoli, ond mae angen gwneud hyn yn llawer mwy o beth.
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?
Hapus â'r cynnydd parhaus o ran helpu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn Nhorfaen, am fod gennym systemau monitro a chymorth sylweddol yn eu lle, ond mae angen sicrhau bod y gwaith i gefnogi ac ymgysylltu â'r rheiny sydd â'r perygl mwyaf o ddod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn Nhorfaen, yn parhau ac yn datblygu. Mae angen datblygu llawer mwy o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 galwedigaethol ac addas yn lleol i bobl ifanc yn Nhorfaen, ac mae yna dynfa yn datblygu, sy'n denu pobl ifanc 16 oed sy'n academiaidd ac sydd â chefnogaeth dda, allan o Dorfaen i ddarpariaeth ôl-16 y tu allan i Dorfaen, a hefyd diffyg darpariaeth hyfforddiant galwedigaethol lefel 1 a 2 leol a hygyrch ar gyfer pobl ifanc 16 oed eraill sy'n gadael ysgolion. Bydd y meysydd hynny'n goleuo'r gwaith o gynllunio cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2024-28 fel gofynion clir wrth symud ymlaen i ddarparu rhaglen addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 deg a hygyrch ar gyfer pobl ifanc Torfaen.

Amcan: 3 Cam: G	Cyflwyno ymyraethau datblygu economaidd ac adfywio gyda ffocws ar greu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd i drigolion iau a'n cymunedau mwyaf difreintiedig.
Swyddog Adrodd:	Carla Kavanagh
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Roedd cais y Cyngor am gyllid Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU yn llwyddiannus, a sicrhawyd £7.6M ar gyfer 3 phrosiect adfywio yng Nghanol Tref Pont-y-pŵl. Bydd y rhain yn cael eu cynllunio'n llawn yn 2025/26 a'u cyflawni yn 2026/2027 a 2027/28. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i gyflawni rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, gyda grant o £2.5M i gefnogi gwaith adfywio sylweddol yn Gwent Square, Cwmbrân a gyda datblygiad sawl prosiect llai yng Nghanol Trefi Blaenafon a Phont-y-pŵl trwy'r Rhaglen Creu Lleoedd. Bydd pob un o'r prosiectau hyn yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd (bwyd a diod, hamdden, adeiladu, diwylliant). Mae'r prosiectau hyn i gyd yn cyflawni yn erbyn ein Cynlluniau Creu Lleoedd sydd wedi crisialu blaenoriaethau a heriau trigolion iau ym mhob un o'r tair tref. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dyrannu Cyllid Ffyniant Gyffredin i barhau i ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd a rhaglenni ar gyfer y rheiny sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae goblygiadau ariannol yr argyfwng costau byw a phandemig Covid wedi parhau i effeithio ar allu perchnogion eiddo i fuddsoddi mewn cynlluniau adfywio. Mae anweithgarwch economaidd yn dal i fod yn flaenoriaeth, gyda chynnydd yn nifer y trigolion hyn sy'n gadael y farchnad lafur a chynnydd mewn salwch hirdymor yn dilyn y pandemig.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Bydd y ffocws yn y dyfodol ar gyflawni prosiectau'r cyllid Trawsnewid Trefi a Ffyniant Bro a gymeradwywyd.	
Amcan: 3 Cam: H	Darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr sy'n cynyddu gallu pobl ifanc i gael hyd i ddeunyddiau dysgu o ansawdd da, sy'n cefnogi'r mwyaf agored i niwed i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a chynorthwyo pobl ifanc agored i niwed sy'n chwilio am waith i gael cyfleoedd ar-lein a datblygu sgiliau a chyfleoedd gwaith.
Swyddog Adrodd:	Stephanie Morgan
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Gweithgareddau busnes-yn-ôl-yr-arfer gan gynnwys datblygu ac ailgyflenwi adnoddau stoc yn barhaus, Gweithiwr Iechyd a Llesiant Proffesiynol dynodedig yn y swydd a rhaglen o weithgareddau Iechyd a Llesiant, gan gynnwys gwasanaeth cymorth 1-1 a dangos y ffordd, ac adnoddau stoc penodol am Iechyd a Llesiant, e.e. Darllen yn Well a chasgliadau Iechyd	

meddwl. Mae sefydliadau partner ar y safle yn helpu i sicrhau ffordd gydlynol o ddarparu iechyd a llesiant ac yn cynnig gwasanaeth atgyfeirio cyflym i gwsmeriaid. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd CBST i ddarparu cymorth gyda TG a chyflogaeth ar draws y tair llyfrgell. Bydd Llyfrgell Cwmbrân yn cael ei hailwampio'n sylweddol yn gynnar yn 2025 – bydd hyn yn arwain at daith well i gwsmeriaid drwy'r llyfrgell gydag ardaloedd wedi'u hail-greu, darpariaeth ddigidol well ac ardal iechyd a lles â phroffil uwch. Bydd rhaglen o weithgareddau llesiant yn cael ei datblygu i arddangos y cyfleusterau newydd yn ystod 2025-26.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae lefel isel y staff ar draws y gwasanaeth eleni oherwydd salwch hirdymor a diffyg staff achlysurol wedi cael rhywfaint o effaith. Mae'r niferoedd isel a fanteisiodd ar y cymorth iechyd a llesiant 1-i-1 wedi'n harwain ni i archwilio ffyrdd eraill o dynnu sylw at y gwasanaeth, gan gynnwys cydweithio â Thîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid CBST i helpu i adnabod rhai o'u cwsmeriaid a allai elwa ar y cymorth a gynigir. Bydd ardal iechyd a llesiant â phroffil uwch ar ôl y gwaith ailwampio, a rhai digwyddiadau wedi'u targedu, yn denu mwy o ddiddordeb yn y gwasanaeth hwn.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Bydd ardal iechyd a llesiant proffil uwch yn cael ei datblygu.	
Amcan: 3	Cefnogi, amddiffyn a galluogi pobl sy'n agored i niwed i gael canlyniadau positif
Cam: 1	a llesiant.
Swyddog Adrodd:	Sarah Paxton
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Rydym yn cynnig y cyfle i bobl gael eu hanghenion wedi eu hasesu trwy 'sgwrs Beth sy'n Bwysig'. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau ac asedau sy'n defnyddio hierarchaeth o gymorth, gan alluogi pobl i nodi eu datrysiadau eu hunain i gyflawni llesiant cadarnhaol. Lle mai dim ond trwy ymyrraeth statudol y gellir cyflawni hyn, rydym yn cytuno gyda'r unigolyn sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu ac yn datblygu cynllun gofal a chymorth gyda nhw, neu os ydynt yn ofalwyr, cynllun cymorth sy'n nodi eu canlyniadau personol. Mae Gwasanaethau Oedolion yn gweithio'n agos gyda chymunedau i ddefnyddio ein data i nodi cyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar i ganolbwyntio ar lesiant a phenderfyniadau cymdeithasol iechyd.	
Pa heriau a gafwyd?	
Gall y galw cynyddol am wasanaethau oedolion wneud hyn yn heriol iawn	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae angen rhoi mwy o ffocws ar ddatblygu cymunedol a mesurau iechyd y boblogaeth sy'n gysylltiedig ag egwyddorion Marmot a chanlyniadau llesiant	

Amcan: 3	Hyrwyddo materion diogelu a chysylltu'n ehangach gyda phlant anabl a rhai sy'n agored i niwed.
Cam: J	
Swyddog Adrodd:	Claire Worlock
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae tîm Plant Anabl Torfaen yn hyrwyddo diogelu ac ymgysylltiad â phlant anabl a bregus trwy ddull aml-elfen. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gofal mewn ffordd amlddisgyblaeth, mynediad at wasanaethau cymorth priodol, eiriolaeth effeithiol a sicrhau pontio esmwyth o blentyndod i fod yn oedolyn. Maent yn pwysleisio partneriaethau ag asiantaethau eraill, cyd-gynhyrchu gyda theuluoedd, a gwasanaethau cymorth hamdden sy'n cael eu gwerthfawrogi gan blant a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae systemau taliadau uniongyrchol ac asesiadau ar gyfer gofawyr ar gael i hyrwyddo hunan-reolaeth a chymorth i deuluoedd. Mae gwerthusiadau'n amlygu cryfderau yn ymroddiad ac effeithiolrwydd y tîm wrth feithrin cydweithio rhwng asiantaethau, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant. Maent hefyd wedi gweithio i sicrhau bod gan blant a theuluoedd fynediad at adnoddau wedi'u teilwra pan fo angen. Hyrwyddir ymgysylltu trwy asesiad anghenion gwybodus a thrwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu wedi'u teilwra'n arbennig. Mae hyn yn sicrhau ymgais i gael gwybod beth yw eu dymuniadau a'u theimladau a bod plant yn cael eu cynnwys mor llawn â phosibl wrth gynllunio'u gofal. Mae'r dull cyfathrebu yn benodol i bob plentyn a gall gynnwys defnyddio offerynnau ac ymyriadau arbenigol wedi'u goleuo gan 'Basbort Cyfathrebu' sy'n cefnogi gweithwyr cymdeithasol (ac eraill) i ddeall anghenion cyfathrebu'r plentyn. Gall hefyd gynnwys cynlluniau Cymorth Personol ag Ymddygiad, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Anableddau Dysgu Plant a'r Glasoed (CALDS), sydd hefyd yn cefnogi rhieni a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu â'r plentyn ac i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ac anghenion, yn ddiogel ac yn effeithiol.	
Pa heriau a gafwyd?	
Roedd yr heriau allweddol yn cynnwys mynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau, yn enwedig wrth i'r galw am y gwasanaethau hyn dyfu, ac yn benodol gofal seibiant a seibiannau byr, y mae'n anodd dod o hyd iddynt.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Bydd y gwasanaeth yn parhau i esblygu mewn ymateb i anghenion plant anabl a bregus, a bydd gwelliannau pellach wrth weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol, plant a theuluoedd. A thrwy hyrwyddo gwasanaethau cymorth effeithiol, o ansawdd uchel, i ddiwallu anghenion a nodwyd.	
Amcan: 3	Integreiddio ystyriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd o fewn
Cam: K	prosesau cymryd penderfyniadau.

Swyddog Adrodd:	Sarah Tipping
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cwblhawyd mewn blwyddyn flaenorol.	
Amcan: 3 Cam: L	Lleihau anfantais economaidd a thlodi a wynebir gan y rheiny â nodwedd warchodedig benodol (e.e. anabledd, oedran) o ganlyniad i lai o fynediad at y cyfle i gael gwaith a chymorth llesiant annigonol.
Swyddog Adrodd:	David Leech
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Parhawyd i gyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd yn 2023/24 gan gefnogi'r rheiny â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith i chwilio am waith, cael gwaith a symud ymlaen yn eu swydd. Mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei ariannu trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chymunedau Am Waith+ ac mae'n cael ei ystyried ymhellach yn rhan o adolygiad y Gwasanaethau Ataliol.	
Pa heriau a gafwyd?	
Ymgysylltu â chymorth ataliol ar gam cynharach a sicrhau bod cymorth yn y gymuned yn cael ei ymgorffori yn rhan o unrhyw raglenni cymorth, fel bod canlyniadau'n cael eu cynnal.	
Ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid a blaenoriaethau ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol, ar lefel genedlaethol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae'r timau cyflogadwyedd wedi cyflawni canlyniadau sylweddol ar gyfer trigolion unigol ac mae llawer o drigolion wedi symud ymlaen i swyddi yn ganlyniad i waith ymroddedig timau cyflogadwyedd. Ond mae cyfran yr anweithgarwch economaidd yn Nhorfaen sy'n gysylltiedig â salwch yn parhau i fod yn uchel, ac mae angen ystyried ymhellach sut y gall y system helpu i sicrhau gwelliannau parhaus ar lefel y boblogaeth. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad y Gwasanaethau Ataliol.	
Amcan: 3 Cam: M	Cynorthwyo unigolion sy'n wynebu caledi i gael budd-daliadau priodol a sicrhau incwm gyda'r nod o'u galluogi i gynnal llety.
Swyddog Adrodd:	Lesley Groves
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae gan y Gwasanaeth Tai Dîm Cynhwysiant Ariannol pwrpasol sy'n rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd sy'n wynebu trafferthion ariannol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei chael hi'n anodd rheoli'r costau sy'n gysylltiedig â'u cartref presennol/benthyca. Yn ystod 2023/24 cefnogodd y Tîm Cynhwysiant Ariannol 61 o gleientiaid (mae 25 ohonynt yn dal i fod mewn cyswllt â'r tîm). Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth manwl i gleientiaid am gyfnod o hyd at 2 flynedd er mwyn gweithio gyda'r cleientiaid i ddelfio â'r achosion wrth wraidd eu trafferthion ac i gynorthwyo gyda sgiliau cyllidebu manwl, a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, i wella eu sefyllfaoedd ariannol.	

Yn 2023/24 fe gododd/arbedodd y Tîm Cynhwysiant Ariannol £125,492.95 i'w cleientiaid trwy hawlio budd-daliadau, ceisio am grantiau, lleihau gwariant fel dyledion sydd ddim yn flaenoriaeth a biliau sydd ddim yn flaenoriaeth, ac ati. Fe wnaeth y Tîm atal 38 o achosion rhag cael eu gwneud yn ddigartref yn ganlyniad i'w hymyriadau.

Pa heriau a gafwyd?

Wynebodd y tîm nifer o heriau trwy gydol y flwyddyn wrth geisio manteisio ar y buddion perthnasol i gleientiaid. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â hawliadau ac apeliadau am geisiadau am y Taliad Annibyniaeth Personol a Gallu Cyfyngedig i Weithio, oherwydd nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a dim ond dau dîm bach yn Nhorfaen wedi'u hyfforddi'n llawn i lenwi ceisiadau ac apeliadau, a chymerodd fwy o amser i gyflwyno ceisiadau a gwneud penderfyniadau. Mae yna gynlluniau i'r tîm gael hyfforddiant yn ystod y misoedd nesaf er mwyn gallu llenwi'r rhain a gwneud apeliadau. Dylai hyn helpu gyda'r straen ar wasanaethau eraill a sicrhau bod yr amser aros i gleientiaid lawer yn llai.

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Mae'r tîm cynhwysiant ariannol yn dal i fod yn ased pwysig i atal digartrefedd a gwella'r trafferthion ariannol y mae ein cleientiaid yn eu hwynebu. Gyda'r argyfwng costau byw presennol a phryderon parhaus am ddigartrefedd, mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi i hyfforddi ein staff i'w galluogi i barhau i ddarparu cyngor ariannol hanfodol addas a digonol ar gyfer yr holl gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Amcan: 3	Cynorthwyo unigolion i gael llety fforddiadwy, addas yn seiliedig ar eu hanghenion a'u gofynion.
-----------------	--

Cam: N	
Swyddog Adrodd:	Lesley Groves

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?

Yn 2023/24 roedd Tîm Homeseeker wedi prosesu ac actifadu 1,416 o geisiadau a ymunodd â'r gofrestr tai, a chawsant eu hasesu'n ofalus a'u blaenoriaethu yn unol â'u hanghenion.

Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd 484 o aelwydydd lety gydag un o'n Cymdeithasau Tai partner.

Pa heriau a gafwyd?

Rydym yn gweld niferoedd llai o eiddo ar gael trwy ein Cymdeithasau Tai partner ac oherwydd hynny mae'r amseroedd aros i bobl sy'n chwilio am gartrefi yn hirach.

Mae yna fwy o ddibyniaeth ar y sector rhentu cymdeithasol oherwydd yr anawsterau cynyddol y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i opsiynau fforddiadwy mewn mannau eraill yn y farchnad dai (oherwydd costau cynyddol prynu a rhentu cartref).

Mae'r Gwasanaeth Tai yn delio â nifer cynyddol o bobl ag anghenion amrywiol/cymhleth sy'n byw mewn tai anaddas.

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Trwy'r cydweithio a'r gwaith partneriaeth parhaus, mae'r gwaith o ddyrannu cartrefi yn parhau i ddatblygu ac i sicrhau bod gan deuluoedd fynediad at gartrefi fforddiadwy o ansawdd da.

Bydd Tai yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid Homeseeker i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc gyfyngedig o dai cymdeithasol i helpu'r rheiny sydd fwyaf anghenus.

Er bod y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol wedi gweld lleihad yn y tir sydd ar gael, mae cymdeithasau tai partner yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion yr aelwydydd mwyaf agored i niwed yn Nhorfaen, ac mae hyn yn cynnwys anghenion cyffredinol, llety wedi'i addasu/llety â chymorth a rhannu llety.

Er mwyn sicrhau bod modd parhau i ddarparu tai fforddiadwy, mae'n hanfodol fod y berthynas waith yn parhau i ddatblygu ymhellach.

Amcan: 3	Sicrhau bod unigolion sy'n wynebu digartrefedd yn cael cymorth a help i rwystro
Cam: O	digartrefedd lle bo modd yn ymarferol.
Swyddog Adrodd:	Lesley Groves
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Parhaodd Tai i weld nifer uchel o aelwydydd yn dod atynt a oedd o dan fygythiad o ddod yn ddigartref. Yn 2023/24 cynorthwywyd 880 o aelwydydd. Mae'r tîm Datrysiadau Tai yn cynnig cyngor a chymorth i atal digartrefedd gymaint â phosibl, a rhoddwyd pwyslais mawr ar fesurau atal, gyda dros 155 o'r 880 o denantiaethau presennol yn cael eu hachub yng nghamau cynnar y cymorth. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y landlordiaid preifat sydd wedi tynnu'n ôl o'r sector rhentu wedi arafu, ond mae hyn yn parhau i fod yn straen ar gyfer aelwydydd sy'n dod yn ddigartref. Mae rhagor o hyfforddiant a chymorth wedi'u rhoi ar waith ac mae yna swyddog datrysiadau tai ychwanegol bellach yn ei swydd. Mae swydd Swyddog Tai Pobl Ifanc wedi cael ei hadolygu a rhoddwyd mwy o bwyslais ar gefnogi pobl ifanc sy'n symud i fyw'n annibynnol ar gam cynharach. Trwy waith y tîm ymyrraeth tai mae amseroedd aros ar gyfer tai parhaol wedi gostwng erbyn hyn, ac mae tai hefyd wedi gweld lleihad yn yr aelwydydd sy'n aros mewn llety dros dro dros 6 mis, gyda phobl sengl yn aros tua 8-10 mis a theuluoedd yn aros 4-6 mis.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae Torfaen wedi gweld gostyngiad yn y stoc llety dros dro am fod landlordiaid wedi bod yn gadael y cynllun er mwyn cael rhenti uwch ar y farchnad. Bu cynnydd mawr yn nifer yr unigolion sydd wedi dod atom ag angen lefelau uchel o gefnogaeth arnynt e.e. y rheiny sy'n gadael y carchar, iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i ddod o hyd i opsiynau llety parhaol. Mae'r sector rhentu preifat hefyd wedi gweld cynnydd mawr mewn taliadau rhent ac mae hyn wedi golygu bod y ddaliadaeth ddim yn fforddiadwy i lawer o bobl, ac yna mae'r effaith hon yn rhoi mwy o bwysau ar y gofrestr tai cymdeithasol	

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y tai cymdeithasol a ddaeth yn wag, ac unwaith eto mae hyn yn rhoi mwy o straen ar ddigartrefedd gyda llai o lety addas ar gael er mwyn symud ymlaen Mae rhai cymdeithasau tai wedi gweld gostyngiad hefyd yn y gyfradd ar gyfer defnyddio eiddo gwag unwaith eto, ac mae hyn yn effeithio ar allu aelwydydd sydd mewn llety dros dro i symud ymlaen.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Trwy ddatblygu Cynllun Ailgartrefu Cyflym Torfaen, cynyddwyd amrywiaeth o opsiynau tai i helpu aelwydydd digartref. Gwelwyd cynnydd yn argaeledd llety â chymorth/wedi'i addasu, a thai CBST ar brydles gan gymdeithasau tai, ar gyfer yr unigolion hynny y mae angen cymorth sylweddol arnynt wrth iddynt ddechrau byw'n annibynnol, yn gyffredinol am gyfnod o 12 mis, ac yna yn dilyn y cyfnod asesu mae'r eiddo yn mynd yn ôl i'r unigolyn. Mae'r dull hwn yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol, mae'n rhoi sicrwydd i'r landlord ac mae'n arwain at gyfraddau uwch o denantiaethau llwyddiannus. Mae'r cynllun yn rhoi mwy o bwyslais ar amserau symud ymlaen cyflymach ac yn datblygu mwy o opsiynau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae'r tîm ymyrraeth tai bellach yn dilyn aelwydydd digartref am gyfnod o 12 mis ar ôl iddynt sicrhau tŷ parhaol, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y tenantiaethau sydd wedi methu.	
Amcan: 3	Sicrhau bod y sawl sydd angen llety hygyrch yn cael cymorth i gael llety sy'n addas iddyn nhw.
Cam: P	
Swyddog Adrodd:	Lesley Groves
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24? Ar 22 Ebrill 2024 roedd 348 o geisiadau gweithredol ar y gofrestr ar gyfer pobl ag angen wedi'i asesu am lety wedi'i addasu/lety hygyrch. Mae Tîm Homeseeker yn parhau i weithio'n agos gyda Therapyddion Galwedigaethol mewn Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod anghenion trigolion Torfaen yn cael eu hasesu'n briodol er mwyn deall eu hanghenion. Mae 93% o'r 348 ymgeisydd uchod naill ai wedi cael eu hasesu gan Therapydd Galwedigaethol neu'n aros am asesiad yn dilyn atgyfeiriad (86% ar yr un pwynt y llynedd). Yn 2023/24, ail-gartrefwyd 105 o ymgeiswyr ag angen wedi'i asesu am gartrefi hygyrch/wedi'u haddasu trwy'r gofrestr Homeseeker. Yn 2023/24, hysbysebwyd 55 eiddo gan ein Cymdeithasau Tai partner gan roi blaenoriaeth yn benodol i ymgeiswyr ag angen am gartrefi hygyrch/wedi'u haddasu.	
Pa heriau a gafwyd? Yn yr un modd â'r stoc tai ar gyfer anghenion cyffredinol ehangach, rydym yn parhau i weld lleihad yn yr eiddo sydd ar gael i ymgeiswyr yn y garfan hon sydd ag angen cartref newydd. Yn ogystal â'r rhwystrau ynghylch fforddadwyedd i'r garfan hon, o ran cael mynediad at lety yn y sector rhentu preifat, mae landlordiaid preifat yn aml yn amharod i ganiatáu addasiadau i'w heiddo trwy broses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac mae hyn yn creu dibyniaeth bellach ar sector rhentu cymdeithasol cyfyngedig.	

Mae'r Gwasanaeth Tai yn delio â nifer cynyddol o bobl ag anghenion amrywiol/cymhleth sydd mewn tai anaddas. Gall fod yn heriol helpu ymgeiswyr ag anghenion meddygol cymhleth i ddod o hyd i lety addas mewn modd amserol, oherwydd y stoc sydd ar gael a materion ehangach yn ymwneud â chyllid ar gyfer addasiadau, a gofynion gan Therapyddion Galwedigaethol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae Tai wedi parhau i wella'r data a gedwir er mwyn deall anghenion preswylwyr sy'n ceisio cael eu hailgartrefu ac i oleuo datblygiad strategaethau/polisïau ehangach. Mae gweithio gyda Phartneriaid Homeseeker i ddatblygu dealltwriaeth well am y Stoc Tai sydd ar gael, yn enwedig y rhai sy'n fwy hygyrch neu'n gallu cael eu haddasu'n well i ddiwallu anghenion ymgeiswyr â thrafferthion symudedd, yn galluogi nifer fwy o bobl ag anghenion amrywiol/cymhleth i gael llety addas Mae gwaith wedi dechrau gyda phartneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau bod eiddo sy'n elwa ar addasiadau/nodweddion penodol sy'n addas i bobl ag anghenion symudedd yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion y rheiny sydd ag angen cymwys, er enghraifft dyrannu cartrefi sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i'r rheiny y mae angen eiddo sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn arnynt.	
Amcan: 3	Ceisio darparu canlyniadau positif i bobl sy'n cysgu allan wrth ddelio gyda'u hanghenion llety, cymorth, cymdeithasol ac iechyd.
Cam: Q	
Swyddog Adrodd:	Lesley Groves
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24? Mae'r ddarpariaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai (TRIST) yn galluogi unigolion y darganfyddir eu bod yn cysgu ar y stryd i gael cyngor, arweiniad a chymorth. Mae'r prosiect yn ymweld er mwyn gweld y lleoliadau, yn cynnal asesiadau risg ar gyfer yr unigolion, yn darparu cyflenwadau fel pebyll, parseli bwyd ayb, ac yn gweithio'n agos gyda'r tîm datrysiadau tai i sicrhau llety dros dro ar gyfer yr unigolion hyn. Mae Torfaen wedi gweld cynnydd bach yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd ar draws y Fwrdeistref, ac mae hyn yn gyffredinol oherwydd bod perthnasau teuluol yn chwalu. Mae cael TRIST i gamu i mewn ar gam cynnar yn aml yn eu hatal rhag cysgu ar y stryd am gyfnod estynedig. Mae nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi amrywio o 2 – 8 unigolyn ar unrhyw un adeg.	
Pa heriau a gafwyd? Mae Torfaen wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd o ardaloedd eraill yng Nghymru, a gyda digartrefedd wedi cynyddu'n gyffredinol ledled Cymru mae mwy o bobl yn cael eu hunain mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw opsiwn arall. Trwy waith TRIST a datrysiadau tai, darperir cyngor ac arweiniad ar y cyfle cyntaf i gynorthwyo unigolion i ofyn am gymorth gan eu hawdurdod eu hunain. Gall fod yn anodd cefnogi rhai pobl sy'n cysgu ar y stryd sydd wedi dewis byw fel hyn, ond ar gyfer yr unigolion hyn mae cyngor a chymorth ar gael ar bob adeg.	

Mae gan lawer o bobl sy'n cysgu ar y stryd gefndir cymhleth iawn, ac mae ganddynt broblemau iechyd meddwl/materion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol yn aml, ac felly mae dod o hyd i lety addas yn gallu bod yn anodd iawn.

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Er bod cynnydd bach wedi bod yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd, mae Torfaen yn dal i fod yn un o'r awdurdodau sydd â'r niferoedd isaf yn cysgu ar y stryd. Bydd datblygiad parhaus TRIST a'r cynnydd mewn llety â chymorth yn lleihau'r risg o gysgu ar y stryd ymhellach.

Mae gallu deall y cymhlethdodau sy'n dod gyda chysgu ar y stryd wedi galluogi dull wedi'i dargedu'n well ar gyfer yr unigolion hyn.

Mae grant cymorth sy'n gysylltiedig â thai Torfaen hefyd wedi datblygu opsiynau cymorth pellach fel Tai yn Gyntaf, sy'n galluogi unigolyn i gael cymorth dwys am gyfnod estynedig, gan eu helpu i ddod o hyd i lety, rheoli eu tenantiaeth a cheisio'r cymorth perthnasol y mae ei angen arnynt.

Amcan: 3
Cam: R

Gwella cynnydd disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig cyfnod allweddol 4, drwy sicrhau bod gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth ranbarthol ac yn ei chefnogi.

Swyddog
Adrodd:

Andy Rothwell

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?

- Roedd sawl ysgol yn Nhorfaen ynghlwm â'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth addysgu a dysgu wedi'i ddiweddarau, ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae hyn bellach ar gael i bob ysgol i gefnogi datblygiad addysgu a dysgu yn yr ALL.
- Mae 4 ysgol yn rhoi cymorth holistaidd gydag addysgu i ysgolion eraill.
- Mae 7 ysgol yn rhoi cymorth dysgu proffesiynol i ysgolion eraill ar draws rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlwm fel Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu.
- Mae pob ysgol yn rhan o raglen asesu a dilyniant cwricwlwm y clwstwr sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar ffocws a chydlynad.
- Mae 2 ysgol yn cael cefnogaeth bwrpasol i ddatblygu Addysgu ac Arweinyddiaeth
- 1 ysgol yng nghategori Estyn o'i gymharu â 4 ysgol yn 2020/2. Tynnwyd 1 ysgol o'r categori yn 2022/23.
- Mae 6 ysgol wedi arwain dysgu proffesiynol sy'n cefnogi addysgu ac arweinyddiaeth ar draws y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Mae pob ysgol yn cymryd rhan yn y prosiect Ymchwiliad Proffesiynol Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar un o bum prif thema.
- Mae 'Grŵp Addysgu a Dysgu' y Cwricwlwm i Gymru yn gwella gallu'r ysgol i rwydweithio a rhannu arfer.
- Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi ailgynllunio'r ffordd y mae dysgu proffesiynol yn cael ei gynnal i ysgolion.

Pa heriau a gafwyd?

Roedd angen i'r ALL a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg barhau i fod yn sensitif ac yn ymatebol i anghenion yr ysgolion gan eu bod wedi parhau i wynebu heriau yn sgil y pandemig. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill:

- Dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig a'r rheiny ag ADY - Y Blynnyddoedd Cynnar lle mae dysgwyr mewn perygl o golli cerrig milltir datblygiadol allweddol ar gyfer datblygiad ieithyddol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol. - Heriau penodol i ddysgwyr trochi'r Gymraeg ar aelwydydd Saesneg eu hiaith, gan gynnwys dysgwyr sy'n pontio o Flynyddoedd 6-7.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Bydd cau'r bwlch cyrrhaeddiad i blant sy'n dod o gartrefi sy'n byw mewn tlodi yn parhau i fod yn amcan canolog a chraidd i bob ysgol yn Nhorfaen. Er bod rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud o ran polisiau a strategaethau newydd, nid ydym wedi gweld digon o effaith o ran canlyniadau disgyblion.	
Amcan: 3	Gweithio'n gynhyrchol gyda phartneriaid i sicrhau bod ein cymunedau yn Deall Dementia.
Cam: S	
Swyddog Adrodd:	Erin Roche
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Gwent sy'n Deall Dementia Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Gwent sy'n Deall Dementia dros 300 o aelodau, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, gofawyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'r aelodaeth yn dal i gynyddu wrth i bob un sy'n dod i'r sesiynau Ffrindiau Dementia gael cyfle i ymuno. Mae'r grŵp yn hyrwyddo ymwybyddiaeth, cynhwysiant a chymorth dementia ledled Gwent. Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgolion, colegau, elusennau, grwpiau cymunedol a phartneriaid ar draws Gwent, gan ddarparu sesiynau Ffrindiau Dementia ar-lein ac wyneb yn wyneb, a chefnogi cysylltiadau ar-lein gyda chymunedau. Gwnaethpwyd 4,305 o Ffrindiau Dementia ar draws 152 sesiwn yn ystod 2023 – 2024, i helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar draws y rhanbarth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth o Ddementia i'r holl staff newydd yn rhan o'u rhaglenni sefydlu. Cyfanswm presennol y Ffrindiau Dementia a wnaed hyd at 31/03/2024 yw 63,230. Mae rhaglen waith Pontio'r Cenedlaethau Gwent yn parhau i dyfu, ac mae ysgolion yn cael cymorth i gael eu cydnabod fel Ysgolion sy'n Deall Dementia, a gydnabyddir trwy gynllun gweithredu blyneddol. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ysgolion yn cael eu hannog i ddatblygu cysylltiadau gyda chartrefi gofal, cymorth cymunedol ac ysbytai i rannu gweithgareddau a'r hyn a ddysgwyd, er mwyn gwella cynhwysiant cymdeithasol a lleihau ynysu. Eleni, yn dilyn newidiadau i'r fenter Cymunedau sy'n Deall Dementia gan y Gymdeithas Alzheimer's, penderfynodd ein rhwydwaith i ddatblygu ei logo ei hun. Crëwyd cystadleuaeth ddylunio ar gyfer aelodau'r rhwydwaith a'r gymuned ehangach, a chawsom lawer o geisiadau gan sawl grŵp gwahanol, gan gynnwys cartrefi gofal, pobl sy'n byw gyda dementia ac ysgolion. Trefnwyd tîm dylunio er mwyn creu set o logos ar sail yr holl geisiadau a ddaeth i law, a chrëwyd 5 logo Gwent sy'n Deall Dementia a ysbrydolwyd gan bawb a oedd wedi cymryd rhan. Yna, pleidleisiodd y rhwydwaith dros eu hoff logo, a'r canlyniad oedd logo wedi'i gyd-ddylunio a'i gyd-gynhyrchu'n llwyr ac rydym yn falch dros ben ohono!	

Bore Coffi Gwent sy'n Deall Dementia 2024

"Mae'n hyfryd gweld yr holl wasanaethau yng Ngwent y gallwn atgyfeirio atynt, a chael mynediad atynt!".

Ymunodd 55 o aelodau'r Rhwydwaith â ni ar gyfer bore coffi Gwent sy'n Deall Dementia, er mwyn dathlu gwaith Cymunedau sy'n Deall Dementia ar draws Gwent a nodi Wythnos Gweithredu Dementia 2024. Roedd hyn yn gyfle i aelodau rwydweithio, gwneud cysylltiadau a dysgu am brosiectau amrywiol sy'n cefnogi'r rheiny sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Roedd y diwrnod yn gyfuniad o gyflwyniadau a sesiynau rhyngweithiol, gan gynnwys Atgofion Chwaraeon Rygbi'r Dreigiau a Love2Move. Cafwyd ein hanerchiad agoriadol gan aelodau o'n grŵp Arbenigwyr trwy Brofiad, a fu'n rhannu eu taith ddementia hyd yn hyn, yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a'r hyn y byddent wedi dymuno ei weld yn wahanol.

Fe fu'r rheiny a oedd yn bresennol hefyd yn cymryd rhan mewn addewidion deall dementia, ac ymrwymwyd i barhau â'n hymdrechion fel Rhwydwaith, i gefnogi'r rheiny sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr, yn ogystal â gwella dealltwriaeth am ddementia ac ymwybyddiaeth ohono.

I orffen y bore cawsom berfformiad arbennig gan gôr Love to Sing Age Connects, yn perfformio eu cyngerdd cyhoeddus gyntaf erioed!

"Fe wnes i fwynhau gweld y gwaith anhygoel sy'n digwydd yn yr ardal, ac roeddwn i hefyd wrth fy modd yn clywed stori Simon a Lisa!"

Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan (Safonau Dementia)

Mae Rhwydwaith Gwent sy'n Deall Dementia yn cefnogi gwaith y Bwrdd Dementia ar draws Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Mae'r Rhwydwaith yn fecanwaith allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ac adborth, er mwyn darganfod sut olwg sydd ar ofal a chymorth dementia a sut y gallwn wella gwasanaethau ledled Gwent. Mae'r grŵp yn gweithredu fel 'Gwrandawyr Cymunedol' i'n galluogi i gasglu cymaint o straeon â phosibl am brofiadau bywyd. Mae gennym grŵp Arbenigwyr Trwy Brofiad hefyd, sy'n cynnwys pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Rydym wedi cymryd rhan mewn 100+ o weithgareddau ymgysylltu (sesiynau ymwybyddiaeth, digwyddiadau cymunedol, ymweliadau grŵp, cyfarfodydd rhithwir a chyfarfodydd wyneb yn wyneb) yn ystod 2024, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd nifer o grwpiau cymunedol gwahanol gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr, lleiafrifoedd ethnig, y rheiny sydd â nam synhwyrdd, cymunedau teithwyr a sipsiwn, pobl sy'n uniaethu fel LHDTC+ a phobl ag anableddau dysgu.

Mae Partneriaeth Strategol Dementia yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu 'Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan' ac mae arweinwyr ffrydiau gwaith yn dal i fwrw ymlaen â chynlluniau gwaith trwy'r is-grwpiau gwahanol. Cafwyd ymgysylltiad sylweddol ar draws pob ardal yng Ngwent i ddarganfod 'beth sy'n bwysig' i bobl o ran gofal dementia. Mae pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r gwaith hwn, ac mae'r ymgysylltu yn parhau o fewn ein cymunedau, i helpu i gyd-gynhyrchu gwasanaethau.

Siarter Ysbytai

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi mabwysiadu a sefydlu'r 'Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia' i Gymru. Mae'n darparu set o egwyddorion a dangosyddion sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl â dementia a'u teuluoedd, gofalmwyr a chefnogwyr, ac mae'n cynnig canllaw i wella er mwyn cynorthwyo ysbytai yn eu hunanasesiad yn erbyn yr egwyddorion deall dementia. Mae'r Siarter yn dweud wrth bobl beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cael gofal ac yn ymweld ag ysbyty, ac mae hyn yn bwysig. Crëwyd yr animeiddiad canlynol i godi ymwybyddiaeth o'r Siarter a'i nodau ymhellach: <https://youtu.be/KudreUFNZ-E> Saesneg / Cymraeg <https://youtu.be/8gu4AB5VFLM>

Defnyddiwyd adborth am brofiad bywyd pobl o ofal dementia pan fyddant yn yr ysbyty, i ddylanwadu ar ofal dementia, ei lywio a'i wella ar draws wardiau ein hysbytai. Mae ein Cynllun Gweithredu Dementia ar gyfer Ysbytai wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol ar sail adborth a'r hyn sy'n bwysig i bobl.

Gwella profiad pobl sy'n byw gyda dementia tra yn yr ysbyty, trwy ddarparu gweithgareddau ystyrlon a Ffrindiau Dementia Gwirfoddol.

Dysgu Pellach ac Ymwybyddiaeth

Gan barhau â llwyddiant y sesiynau hyfforddi ar-lein am ddim, a gynigiwyd yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia 2023, ochr yn ochr â Chymunedau Digidol Cymru ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, eu teulu, eu ffrindiau, eu gofalmwyr a gweithwyr proffesiynol, rydym wedi estyn sesiynau cinio a dysgu allan. Cynhelir y rhain ar ddydd Mercher cyntaf pob mis, ac maen nhw'n gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth am ddementia a dealltwriaeth ohono, yn y gymuned, ac yn rhoi gwybodaeth ymarferol i bobl i helpu i'w cefnogi i fyw'n dda gyda dementia yn y gymuned.

Roedd y sesiynau'n cynnwys y testunau canlynol:

- Seinyddion a Dyfeisiau Clyfar 3 Ebrill (11 yn bresennol)
- Atgofion 1 Mai (13 yn bresennol)
- Adrodd Straeon yn Ddigidol 5 Meh (6 yn bresennol)
- Apiau Synhwyraidd 7 Awst (7 yn bresennol)
- Gweithgareddau Digidol i Ysbrydoli 4 Medi (2 yn bresennol)
- Casglu Hanes Digidol 2 Hydref
- Cyflwyniad i Ddiogelwch Ar-lein 6 Tachwedd
- Cadw mewn Cysylltiad 4 Rhagfyr

Gweithgareddau Ystyrlon

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi lansio prosiect i ddarparu hyfforddiant am weithgareddau ystyrlon, a basgedi gweithgaredd i grŵp peilot o gartrefi gofal ledled Gwent. Mae'r prosiect yn dechrau cam 2 yn dilyn cyfnod cychwynnol o gwmpasu gwybodaeth, ac mae'n defnyddio gweithgareddau ystyrlon yn y cartrefi gyda phobl sy'n byw gyda dementia.

Hybiau Dementia

Mewn ymateb i adborth a gasglwyd gan ddinasyddion yn ystod ymgysylltiad Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ac Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gwent, mae'n amlwg bod galw am gymorth gwell o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer y rheiny sy'n cael diagnosis o ddementia neu'n profi problemau gwybyddol a phryderon am y cof. Mae Partneriaeth Strategol Dementia wedi cefnogi cais i ariannu 5 Hwb Dementia ar draws Gwent (1 i bob ALI).

Nod yr Hybiau Dementia yw rhoi cefnogaeth a gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da, i unrhyw un sy'n poeni am faterion sy'n ymwneud â'r cof neu'r rheiny y mae dementia yn effeithio arnynt. Bydd yr hybiau'n cael eu datblygu mewn lleoliadau cymunedol hygrych sydd yng nghalon y gymuned, er mwyn i bobl allu galw heibio yn ôl yr angen, i gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt, a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Bydd cydweithio â phartneriaid cymunedol i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn helpu i gefnogi pobl yn y gymuned i gael gafael ar wybodaeth ac yn golygu bod modd dangos y ffordd at adnoddau am iechyd yr ymennydd, cadw'n iach, cymorth ymyrraeth gynnar a gwybodaeth am gymorth tymor hirach, gan amrywiaeth o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol. Yn ogystal â dangos y ffordd, bydd yr hybiau yn croesawu partneriaid o grwpiau a sefydliadau gwahanol ar system rota, i roi cyfle i siarad 'wyneb yn wyneb'. Bydd yr hybiau hefyd yn cynnig ardal / ystafell breifat ar gyfer sgysiau cyfrinachol (lle bo hynny'n bosibl) ac yn cynnig hyfforddiant (yn dibynnu ar faint y lleoliad) i gynnwys sesiynau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth sylfaenol a hefyd yn cysylltu â chynigion hyfforddiant gan bartneriaid e.e. tîm MECS, a sesiynau PCCT a Bitesize.

Bydd yr Hybiau Dementia yn rhoi cymorth a gwybodaeth hanfodol er mwyn galluogi pobl i gael gafael ar wybodaeth, cymorth a chynghor ar sail eu hanghenion. Yn ogystal â'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth, dangos y ffordd a chynnal diwrnodau cyswllt allweddol gyda phartneriaid, bydd yr hybiau yn cynnig:

- Lle diogel i bobl sy'n poeni am eu cof, neu y mae dementia yn effeithio arnynt, i alw heibio a chael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Ar ddiwrnodau pan fydd arweinwyr yn staffio'r lleoliad bydd cyfle i siarad ag arweinydd dementia/gofalwyr, yn bersonol.
- Amgylchedd croesawgar, cynnes, a bydd te a choffi ar gael i unrhyw un sy'n ymweld â'r hwb ar y diwrnodau y mae pobl yn ei staffio.
- Hyfforddiant i gyflwyno'r gyfres Ws5a o opsiynau Dysgu a Datblygu e.e. Ffrindiau Dementia, Ymwybyddiaeth o Dementia, Hyfforddiant Profiad
- Ystafell y gellir ei llogi ar gyfer sesiynau preifat i'w defnyddio ar gyfer apwyntiadau am gyngor arbenigol, e.e. gwybodaeth ariannol, atwrneiaeth, cefnogaeth gyda ffurflenni ayb.
- Technoleg Gynorthwyol: Os oes digon o le ar gael, rydym eisiau rhoi cyfle i bobl weld Technoleg Gynorthwyol a allai helpu i wella eu bywydau a'u galluogi i fyw'n fwy annibynnol, a rhoi tro arni.

Technoleg Gynorthwyol:

Mae HUG gan gwmni LAUGH® yn ddyfais synhwyrdd sydd wedi'i chynllunio i ddod â phleser a chysur i bobl. Dyluniwyd y ddyfais gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn benodol i bobl sy'n byw gyda dementia, ond gall pobl â chyflyrau amrywiol ei defnyddio. Yng Ngwent, mae HUG yn cael ei threialu mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol i brofi ei heffeithiolrwydd. Mae ganddi freichiau a choesau â phwysau ynddynt, a'r opsiwn o gael calon sy'n curo yn ei chorff meddal. Gall chwarae cerddoriaeth wedi'i phersonoli a gellir ei newid i hoff restr chwarae. Mae "bocs hud" HUG sy'n darparu'r curiad calon a cherddoriaeth yn rhedeg o uned y gellir ei gwefru sy'n cael ei thynnu allan cyn golchi.

Hyd yn hyn mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent wedi darparu cyllid ar gyfer 500 o ddyfeisiau, ac mae hyn wedi bod o fudd i bobl sy'n byw gyda dementia, awtistiaeth a chyflyrau niwroamrywiol, anabledau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl, gofalwyr a phobl sy'n cael gofal diwedd-oes. Mae'r ymdrech wedi bod yn bartneriaeth wirioneddol, ac rydym wedi bod yn falch o gefnogi dosbarthiad cynnyrch a ddatblygwyd yma yng Nghymru sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl ar draws ein cymunedau yng Ngwent.

Mae Gweithgareddau Therapi Rhyngweithiol Atgofion (RITA) a ddatblygwyd gan My Improvement Network, yn gwella'r gofal i unigolion hŷn, gan gynnwys y rheiny sy'n byw gyda dementia a chyflyrau iechyd meddwl. Mae RITA yn defnyddio dyfais sgrin gyffwrdd, ac yn cynnig gweithgareddau ystyrlon sy'n cyfuno adloniant â therapi, gan helpu cleifion â namau ar y cof i gofio a rhannu digwyddiadau o'r gorffennol trwy gerddoriaeth, newyddion, sgwrsiau, gêmiau, caraoci, a ffilmiau. Prynwyd dros 260 o ddyfeisiau RITA gyda chyllid gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent rhwng 2020 a 2022. Mae'r dyfeisiau hyn wedi cael eu dosbarthu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, awdurdodau lleol, a sefydliadau'r trydydd sector ledled Gwent, gan gynnwys cartrefi gofal, ysbytai, lleoliadau cymunedol, a phrosiectau'r trydydd sector. Mae RITA hefyd yn cael ei defnyddio gan dîmau symudol ac mae wedi cael ei threialu mewn lleoliadau gofal cymhleth.

Mae rhaglen o'r enw The Happiness Programme, a grëwyd gan Social Ability, yn cyfuno technoleg golau synhwyraidd rhyngweithiol gyda rhaglen wedi'i strwythuro, hyfforddiant a chymorth strwythuredig. Mae The Happiness Programme wedi'i chynllunio ar gyfer unigolion ag anghenion gofal gwybyddol a chorfforol, ac mae'n darparu gweithgareddau ystyrlon a difyr trwy fwy nag 80 o opsiynau rhyngweithiol, gan gynnwys amrywiaeth o gêmiau rhyngweithiol, cwisiau a chynnwys meddylgarwch sy'n trochi'r chwaraewr yn y profiad.

Yn 2021/2022, ariannwyd 147 o ddyfeisiau The Happiness Programme gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent am 2 flynedd. Mae'r dyfeisiau wedi'u dosbarthu ar draws pob sector yn y rhanbarth ac mae'r sefydliadau wedi adrodd am ganlyniadau cadarnhaol. Mae adborth gan sefydliadau sy'n defnyddio The Happiness Programme yn dangos effaith gadarnhaol ar yr unigolion sy'n cael eu cefnogi a'r staff.

Pa heriau a gafwyd?

Bu llawer o heriau yn ystod 2023/2024 a gwelwyd nifer o newidiadau yn digwydd o fewn y Gymdeithas Alzheimer's, gyda rôl yr Hyrwyddwr Dementia yn newid i'r model Llysgennad Dementia fel yn Lloegr. Mae hyn wedi effeithio ar Ffrindiau Dementia, a phroses achredu 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia' ar gyfer Ysgolion / Sefydliadau sy'n Deall Dementia. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â Chymdeithas Alzheimer's a chymunedau, i sicrhau bod newidiadau wedi cael eu gweithredu'n esmwyth, gan ddarparu cyfleoedd i bartneriaid ac aelodau'r gymuned i drafod y newidiadau a chodi ymholiadau a phryderon trwy gyfarfodydd Cymuned sy'n Deall Dementia Gwent. Mae newid y rôl o Hyrwyddwr Dementia i Lysgennad Dementia wedi arwain at lai o Lysgenhadon yng Ngwent ac rydym yn gweithio'n galed i gysylltu â Hyrwyddwyr blaenorol, i'w sefydlu fel Lysgenhadon, yn ogystal â chynyddu niferoedd cyffredinol ar draws y rhanbarth. Rydym yn casglu rhestr aros o bartneriaid sy'n dymuno dod yn Lysgenhadon Dementia yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd Cymdeithas Alzheimer's yn rhyddhau dyddiadau newydd ar gyfer y rhaglen hyfforddi.

Bydd proses achredu 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia' y Gymdeithas Alzheimer's ar gyfer Ysgolion / Sefydliadau sy'n Deall Dementia yn dod i ben ddiwedd 2023. Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer's, rhwydwaith Cymuned sy'n Deall Dementia Gwent, a'r cymunedau ehangach i ddeall beth fydd y newidiadau hyn yn ei olygu i Went, ac yn datblygu rhaglen waddol i barhau â'r gwaith hwn.

Bu heriau o ran cael cyllid ar gyfer y model Hwb Dementia, gyda'n nod gwreiddiol o weithredu 2 hwb ar gyfer pob ALL a rhoi mwy o fynediad i'r cynnig ar draws y bwrdeistrefi. Gyda chais llwyddiannus bellach i weithredu 1 hwb i bob ALL, bydd y cyfnod cychwynnol o 6 mis yn cael ei

ddefnyddio fel cynllun peilot, gan gasglu data a phrofiadau gan aelodau'r gymuned sy'n defnyddio'r hybiau i ddatblygu cais pellach i ehangu'r hybiau ar draws y rhanbarth, neu o bosibl 'staffio'r' hybiau o ddydd Llun i ddydd Gwener i roi cymorth 1:1 i'r rheiny sy'n ymweld.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymunedau, ac ar hyn o bryd rydym yn mapio'r cymorth sydd ar gael ledled Gwent yn rhan o Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan, fel y gallwn weld ble mae'r bylchau yn y cymorth a ddarperir. Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr ym Mhartneriaeth Strategol Dementia, i sicrhau bod Cymunedau sy'n Deall Dementia yng Ngwent yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith, nawr ac yn y dyfodol. Gydag achrediad 'Gweithio tuag at Ddeall Dementia' Cymdeithas Alzheimer's yn dod i ben ddiwedd 2023, o 2024 datblygwyd proses achredu 'Gwent sy'n Deall Dementia' er mwyn i sefydliadau ac ysgolion barhau â gwaith Gwent sy'n Deall Dementia ar draws y rhanbarth, a chynnig cyfle i ni ymgysylltu â'r gwaith gwych sy'n digwydd yn y gymuned, a'i gydnabod. Gyda thirwedd newidiol y model Llysgennad Dementia a Ffrindiau Dementia o fewn y Gymdeithas Alzheimer's, rydym wedi cytuno i symud ymlaen ar y cyd ag Abertawe sy'n Gyfeillgar i Dementia/Hwb Dementia Abertawe gan estyn pecyn pwrpasol Dementia Aware + allan ar gyfer Gwent trwy fodel hyfforddi'r hyfforddwr. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatrys y materion sydd gennym ynghylch capasiti, o ran argaeledd Llysgenhadon Dementia ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn dechrau yn 2025. Bydd Ffrindiau Dementia yn dal i fod yn rhan o'n cynnig codi ymwybyddiaeth, gyda'r nod o ddarparu sesiynau rhithwir chwarterol rheolaidd, a Ffrindiau Dementia ar gyfer oedran ysgol gynradd. Mae Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gwent wedi tynnu sylw at anghenion gofal a chymorth pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalmwyr. Datblygwyd y Cynllun Ardal i adlewyrchu'r camau y byddwn yn eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hyn ac i helpu i wella bywydau'r rheiny y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae'r Cynllun Ardal yn rhan o'r rhaglen waith ranbarthol ar gyfer dementia ledled Gwent ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, er mwyn sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Byddwn yn parhau i weithredu'r modelau Hwb Dementia ac i fonitro eu gwerth, er mwyn llywio'r gwasanaethau a gynigir a'r camau nesaf ar gyfer 2024 a thu hwnt.	
Amcan: 3	Gweithio i gefnogi amrywiol unigolion a grwpiau gydag anableddau e.e. Clefyd
Cam: T	Niwronau Motor.
Swyddog Adrodd:	Stuart Lawrence
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Gweithiwyd gyda grwpiau cymunedol fel Able, Evolve a Fforwm Mynediad Torfaen, a nodwyd bod y gymuned anabledd yn teimlo ei bod wedi cael ei gadael ar ôl o ganlyniad i Covid a'i bod	

wedi cael trafferth ailgysylltu â gweithgareddau corfforol ers hynny. Nodwyd beicio/beiciau wedi'u haddasu fel cyfle o'r tu allan sydd wedi rhoi hyder i'r rheiny sy'n dal i'w chael yn anodd mewn amgylchedd dan do. Cynhaliodd Datblygu Chwaraeon Torfaen gynllun peilot yn Stadiwm Cwmbrân am 12 wythnos dros yr haf i weld a oedd galw go iawn, a chadarnhawyd bod galw go iawn, gydag 20 o bobl yn bresennol. Dywedodd un fenyw nad oedd hi erioed wedi reidio beic o'r blaen. Rydym yn parhau i weithio gyda'r GIG i ddod o hyd i sesiynau priodol ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer gweithgarwch cymunedol.
Pa heriau a gafwyd? Mae staffio yn fater cyson oherwydd nifer y sesiynau sy'n rhedeg ar yr un pryd, a'r hyfforddiant arbenigol sydd ei angen i redeg y sesiwn. Rydym wedi hyfforddi staff o'r gwasanaethau cymdeithasol, Evolve ac Able i redeg eu sesiynau caeedig ond rydym eisiau agor hyn i fyny i'r gymuned. Rydym bellach yn gweithio gyda'r ymddiriedolaeth hamdden a'r grwpiau a nodwyd uchod i ffurfioli rhaglen feicio gymunedol fforddiadwy er mwyn i bobl ag anabledd gael mynediad at sesiynau beicio. Bydd hwn yn grŵp â chyfansoddiad a bydd yn caniatáu i'r grŵp wneud cais am gyllid i dyfu'r sesiynau. Capasiti yw'r broblem o hyd ar adegau. Weithiau mae gennym doreth o atgyfeiriadau ac weithiau mae ceisio gweithio gydag unigolion i'w cael i mewn i weithgarwch yn broses araf, oherwydd y gwaith ymgysylltu sydd ei angen i'w cael i gymryd rhan. Ar adegau fe fu angen ymweliadau â'r cartref.
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?
Rydym yn parhau i weithio yn y maes hwn er nad ydym yn cael cyllid gan Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae popeth rydym yn ei wneud ym maes Chwaraeon yn ymwneud â chynhwysiant a byddwn yn parhau i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau yn eu lle sy'n atal pobl rhag dod yn actif. Y rhwystr mwyaf i ni yw adnoddau, yn absenoldeb Swyddog Chwaraeon Anabledd Cymru penodol, ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda Llwybr Iechyd. Wrth i hyn ddatblygu dylai fod mwy o gapasiti ar gyfer yr unigolion hynny yr ydym yn eu targedu a dylem fod yn gallu dangos y ffordd yn well iddynt.

Amcan 4 <i>Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud</i>	
Amcan: 4 Cam: A	Sicrhau bod cymaint o gyhoeddusrwydd ag y bo modd i ymgynghoriadau.
Swyddog Adrodd:	Louise Day
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae nifer y bobl sydd wedi cofrestru ar wefan Dweud Eich Dweud Torfaen wedi parhau i gynnyddu - yn Ch2 2024 roedd mwy na 800 o bobl wedi cofrestru.	

Mae ein swyddog ymgysylltu arweiniol yn anfon cylchlythyrau yn rheolaidd i gyfranogwyr sydd wedi cofrestru, i roi gwybod iddynt am ymgynghoriadau newydd a rhai sydd ar fin cau. Mae hi hefyd wedi datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol newydd, sydd wedi cyfrannu at gynydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r tudalennau ymgynghori. Mae pob sesiwn ymgysylltu wyneb-yn-wyneb yn cael ei hyrwyddo ar blatfform Dweud Eich Dweud Torfaen, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cyngor Torfaen. Rydym yn anfon datganiadau i'r wasg a bwletin newyddion wythnosol i'r cyfryngau lleol am bob ymgynghoriad. Mae'r tîm ymgysylltu corfforaethol wedi cynnal dau gyfarfod wyneb-yn-wyneb ar gyfer Panel y Bobl Torfaen, ac mae ein swyddog ymgysylltu arweiniol yn gweithio'n agos gyda'r fforymau 50+ a Fforwm Mynediad Torfaen. Mae cylchlythyr cymunedol y Cyngor, Llais Torfaen, yn cynnwys tudalen arbennig ar gyfer digwyddiadau a chyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae wedi'i anelu at drigolion sydd ddim yn ein dilyn ar-lein. Rydym yn dod i gyswllt â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid, gan gynnwys cynghorau cymuned, i helpu i hyrwyddo ymgynghoriadau perthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028 a chafwyd amrywiaeth dda o ymatebion, gan awgrymu ein bod yn gallu cyrraedd y rhan fwyaf o'r ddemograffeg wrth ymdrechu ar y cyd.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae mesur effaith cyfathrebu sydd ddim yn ddigidol mewn perthynas ag ymgynghoriadau, yn her.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae ail-lansio Llais Torfaen wedi cael ymateb ardderchog gan drigolion hŷn. Mae aelodau'r Fforwm 50+ wedi dweud wrth ein Swyddog Cymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn gymaint maen nhw'n ei fwynhau ac yn ei werthfawrogi. Mae cefnogi timau'r Cyngor i gynnal ymgynghoriadau hybrid (h.y. ar-lein a wyneb-yn-wyneb) yn golygu ein bod yn cyrraedd mwy o ddemograffeg. Bydd Grŵp Cyfranogol newydd yn cael ei sefydlu i roi cyngor ac arweiniad i staff sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ac ymgynghori.	
Amcan: 4	Ymgymryd ag ymarfer mapio ar gyfer grwpiau sy'n rhannu nodweddion
Cam: B	gwarchodedig penodol e.e. pobl hŷn, pobl LHDTC+
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	

Cyflawnwyd y cam hwn cyn datblygu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent, a gafodd fewnbwn yn ystod y cam ymgynghori gan lawer o'r ddemograffeg. Eleni, aethom ati i barhau i wneud rhywfaint o gynnydd wrth feithrin perthnasodd a chyfleodd ar lefel Gwent, ac roedd y mwyaf nodedig gyda'r Gymuned LHDTG+, trwy bresenoldeb yn Pride in the Port a Pride Caerffili yn rhan o'r rhwydwaith Cynghorau Balch, a chefnogi Club F.O.D i gynllunio ar gyfer Pride Torfaen, digwyddiad Pride cyntaf y Fwrdeistref.

Pa heriau a gafwyd?

Fel gydag unrhyw fath o fapio, mae gwybodaeth gyswllt yn mynd yn hen, a heb unrhyw adnoddau penodedig i gynnal cronfa ddata, mae sawl grŵp yn sôn am wneud eu gwaith mapio eu hunain sy'n weithred aneffeithlon ac yn dyblygu'r ymdrech. Rydym felly wedi trafod ar lefel swyddogion gan ddod â'r grwpiau hyn at ei gilydd trwy un grŵp ymgysylltu strategol rhanbarthol ar gyfer Gwent, gan uno grwpiau Ymgysylltu a Chyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a dod â chynrychiolaeth o grwpiau priodol eraill i mewn i'r cylch hwnnw. Bydd hon yn ffordd fwy effeithiol o weithio, ac o reoli'r hyn y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei ofyn gan drigolion yng Ngwent yn well, o ran ymgynghori, gan ei gwneud yn haws i staff ddod i gyswllt â'r rheiny y mae eu penderfyniadau yn debygol o effeithio fwyaf arnynt, a gwella ansawdd Asesiadau Effaith.

I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun

Cydraddoldeb Strategol hwn?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?

Trwy weithio gyda'r gymuned LHDTG+ bydd CBST yn gallu llunio Canllawiau Pontio at Waith sy'n cael eu goleuo gan y rheiny â phrofiad bywyd, yn ystod 2025-26.

Byddwn yn defnyddio'r Grŵp Cyfranogol newydd yn CBST i gryfhau ein cyfathrebu mewnol ac i gefnogi staff i gyrraedd grwpiau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r holl Nodweddion Gwarchodedig, yn ogystal â'r rheiny sy'n byw mewn tldi, gofawyr ac unigolion â phrofiad o ofal.

Amcan: 4	Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfle i leisio barn ar faterion sydd yn effeithio
Cam: D	arnynt hwy (Erthygl 12 CCUHP).
Swyddog Adrodd:	Philip Wilson

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?

Aethom ati i gynllunio'r Diwrnod Meddiannu cyntaf i Bobl Ifanc ar gyfer mis Mai 2024. Byddai 14 o ddisgyblion ysgol uwchradd yn mynd ymlaen i dreulio'r diwrnod yn y Ganolfan Ddinesig gan gymryd rolau'r Prif Weithredwr ac uwch-swyddi arwain eraill, am y dydd. Fe wnaethon nhw gyfres o argymhellion ac mae disgwyl iddyn nhw ddychwelyd i swyddfeydd y Cyngor ym mis Rhagfyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan swyddogion.

Ail-lansiwyd Fforwm leuenctid Torfaen ym mis Chwefror 2024, ac ers hynny mae wedi cael aelodaeth gyson o 17 o bobl ifanc gyda chynrychiolaeth o bob un o ysgolion uwchradd y sir. Mae'r materion y mae'r Fforwm yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn cynnwys sut i fynd i'r afael â fêpio mewn ysgolion, cost prydau ysgol, ymwybyddiaeth o ddyslecsia, mannau awyr agored cymunedol i bobl ifanc a gwaith rhan-amser i bobl ifanc 16 oed.

Ym mis Tachwedd, cynhelir cyfarfod cyntaf y Gynghrair leuenctid yn Ysgol Crownbridge. Nod y Gynghrair yw dod â chynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau pobl ifanc at ei gilydd, gan

gynnwys ysgolion, fforymau a rhaglenni allgymorth. Bydd ail gyfarfod dilynol yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2025.	
Mae ein Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc hefyd yn trafod gyda phenaethiaid ysgolion cynradd ynglŷn â sefydlu fforwm ieuenctid iau i roi'r un cyfle i bobl ifancach i leisio'u barn.	
Pa heriau a gafwyd?	
Mae staff yr ysgol yn brysur, ac mae llawer o alw ar eu hamser, a gall fod yn anodd meithrin cysylltiadau cychwynnol gydag ysgolion.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Cafodd Covid-19 effaith ar y Fforwm Ieuenctid gan arwain at leihad yn y niferoedd, ond ers mis Ionawr 2024 mae cynnydd da wedi ailddechrau gyda phobl ifanc yn cymryd rôl weithredol i sicrhau bod pobl yn gwrandao ar eu lleisiau ac yn eu cymryd o ddifrif. Mae'n bwysig fod timau yn ymrwymo, er mwyn annog staff i gefnogi cyfleoedd i bobl ifanc ddweud eu dweud.	
Amcan: 4	Annog gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fabwysiadu'r
Cam: E	Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.
Swyddog Adrodd:	Philip Wilson
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc newydd wedi cael ei hysgrifennu ac mae'n amlinellu themâu allweddol ar gyfer mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.	
Mae disgwyl i'r Strategaeth gael ei hystyried gan aelodau'r Cabinet ym mis Rhagfyr.	
Mae'r Strategaeth yn cynnig fframwaith i sicrhau bod gwasanaethau a gynigir i bobl ifanc yn cyrraedd y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Bydd rhaglen hyfforddi sy'n seiliedig ar y Strategaeth hon yn cael ei chyflwyno i adrannau'r Cyngor.	
Sefydlwyd grŵp cyfranogiad staff ym mis Medi i wella sut y mae ymarferion ac ymgynghoriadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu cynllunio a'u gweithredu, gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad cynulleidfaoedd sy'n cael eu tan-gynrychioli, gan gynnwys pobl ifanc.	
Pa heriau a gafwyd?	
Gall fod yn anodd cael neges gyson allan i bob un o adrannau'r Cyngor sy'n gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn?	
Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae cynnydd da yn cael ei wneud ac mae staff wedi ymrwymo i weithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi'r Safonau Cyfranogiad.	
Amcan: 4	Cynyddu cyfranogiad pobl ifanc nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn
Cam: F	ymgynghoriadau'r Awdurdod Lleol a phartneriaethau i wella ein dealltwriaeth o'u hanghenion a'u gwerthoedd.

Swyddog Adrodd:	Philip Wilson
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae gan y Cyngor nifer o grwpiau i gefnogi plant ag anghenion penodol, gan gynnwys Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen, Gofalwyr Ifanc, y Fforwm Sipsiwn a Theithwyr a grŵp LHDTC+ sy'n cael ei redeg gan y gwasanaeth ieuenctid. Sefydlwyd grŵp llywio o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml. Mae'r grŵp llywio yn gweithio i sefydlu Cynghrair Ieuenctid Torfaen a fydd yn dod â phobl ifanc o gymunedau anoddach eu cyrraedd yn y sir, at ei gilydd. Bydd cael cyfle i ymgynghori â'r bobl ifanc hyn yn gwella'r ddealltwriaeth am eu hanghenion/gwerthoedd ac yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd y Gynghrair a'r Fforwm Ieuenctid yn gallu dweud eu dweud am ymgynghoriadau'r Cyngor yn ogystal â chodi materion eraill sy'n bwysig yn eu barn nhw.	
Pa heriau a gafwyd?	
Gall fod yn anodd i staff annog pobl ifanc i ymgysylltu â fforymau a chyfarfodydd	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Cafwyd dechrau da trwy sefydlu'r grŵp llywio. Mae yna gronfa dda o weithwyr proffesiynol sydd wedi ymrwymo ac sy'n awyddus i edrych ar ffyrdd o annog pobl ifanc i gael eu lleisiau wedi eu clywed ac i gael eu cymryd o ddifrif.	
Amcan: 4 Cam: G	Datblygu'r Senedd Ieuenctid ar gyfer Torfaen.
Swyddog Adrodd:	Philip Wilson
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Enw'r Senedd Ieuenctid yw Cynghrair Ieuenctid Torfaen, a chynhaliodd ei chyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2024. Mae'r Fforwm Ieuenctid hefyd wedi cyfrannu at drafodaeth am ddyfodol Senedd Ieuenctid y DU. Safodd sawl aelod hefyd ar gyfer etholiad Senedd Ieuenctid y Senedd ym mis Tachwedd.	
Pa heriau a gafwyd?	
Gall fod yn anodd i staff annog pobl ifanc i ymgysylltu â fforymau a chyfarfodydd	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 4 Cam: H	Gweithredu offeryn Asesu Effaith Hawliau'r Plentyn.
Swyddog Adrodd:	Philip Wilson

Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae pob un o'r gwasanaethau addysg wedi defnyddio offeryn asesu hawliau plant ac wedi cynnwys amcanion yn y cynlluniau adrannol sy'n adlewyrchu canlyniadau'r hunanasesiad hwn. Bydd defnyddio'r offeryn hwn yn cynnig ffordd o fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud i sefydlu'r dull hawliau dynol plant mewn ffyrdd o weithio o ddydd i ddydd.	
Pa heriau a gafwyd?	
Roedd y gwasanaethau addysg yn gallu mabwysiadu hyn yn hawdd gan ddefnyddio'r offeryn hunanasesu yn eu cynlluniau gwaith. Gallai hyn fod yn anoddach wrth estyn yr offeryn allan at adrannau eraill y Cyngor.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Gwnaed cynnydd da mewn gwasanaethau addysg gan ddefnyddio'r offeryn asesu. Credir y bydd angen mwy o hyfforddiant er mwyn galluogi adrannau eraill i ddefnyddio'r offeryn i ddatblygu eu cynlluniau adrannol. Mae hyn oherwydd nad oes gan eu gwaith bob-dydd ffocws ar gydnabod barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn gyffredinol.	
Amcan: 4	Datblygu cyfleoedd pellach i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.
Cam: I	
Swyddog Adrodd:	Philip Wilson
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Bydd datblygu Cynghrair Ieuenctid Torfaen a Fforwm Ieuenctid Iau yn sicrhau mwy o gyfleoedd eto i blant a phobl ifanc gael dylanwad ar benderfyniadau. Mae yna gyfleoedd hefyd i bobl ifanc ymgysylltu ym mhrosiect Rebel Torfaen, lle bydd ymgynghoriad i gasglu eu barn a'u safbwyntiau yn rhan o ffrydiau gwaith mwy Rebel Torfaen.	
Pa heriau a gafwyd?	
Gall asiantaethau allanol ac adrannau mewnol weld fforymau ieuenctid fel grwpiau hawdd i'w defnyddio yn rhan o broses ymgynghori. Gall hyn arwain at ymgysylltu â phlant mewn ffordd docenistaidd a pheidio â dilyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae gwasanaethau addysg wedi sefydlu sawl llwybr er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau. Yr her yn 2024-2028 fydd sefydlu arfer da ym mhob un o adrannau'r Cyngor i sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei arwain gan anghenion pobl ifanc a'u barn.	

Amcan 5 <i>Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg</i>	
Amcan: 5	Cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar amser, ar ôl ystyriaeth a gwaith craffu mewnol.
Cam: A	
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cwblhawyd y cam hwn bob blwyddyn.	
Amcan: 5	Ymgorffori'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd yn yr Asesiadau Effaith ar Lesiant.
Cam: B	
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Cwblhawyd y cam gweithredu hwn yn ystod 2020/21, pan ychwanegwyd y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd at ein Hofferyn Asesu Effaith Integredig.	
Amcan: 5	Sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi yn gyson i agweddau ar gydraddoldeb o fewn Asesiadau Effaith ar Lesiant.
Cam: C	
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Mae Asesiadau Effaith Integredig wedi cael eu hadolygu pryd bynnag yr oedd gofyn amdanynt cyn penderfyniadau'r Cyngor a'r Cabinet.	
Pa heriau a gafwyd?	
Byddai'n ddefnyddiol cymryd rhan yn gynharach yn y broses er mwyn cynnig cyngor, a'n nod yw cyflawni hyn yn amlach trwy'r Grŵp Cyfranogol mewnol newydd. Weithiau, nid oes gan staff ddealltwriaeth ddigonol am anableddau penodol, nodweddion niwroamrywiaeth neu brofiadau byw eraill oherwydd nodweddion a rennir, ac mae hynny'n ddealladwy. Mae'r angen i ddysgu yn fawr ond mae cysylltu staff â grwpiau fel Fforwm Mynediad Torfaen a Fforymau 50+ yn ffordd ddefnyddiol o'u helpu i ystyried amrywiaeth o bersectifau. Mae yna heriau amrywiol sy'n cyfyngu ar allu staff i ymgysylltu neu gyd-gynhyrchu atebion, er enghraifft capasiti, terfynau amser byr ar gyfer ceisiadau am nawdd ayb., felly rydym yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wneud y broses hon yn haws ac o sicrhau ystyriaeth ystyrlon a thrylwyr.	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Mae angen mwy o adnoddau arnom i gefnogi staff i ystyried ehangder llawn anableddau ac i weithio o fewn Model Cymdeithasol Anabledd.	

Amcan: 5 Cam: D	Tîm cydraddoldeb i gynghori ar arferion a chymalau (gan gynnwys eu gwerthuso) sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac y gellir eu hymgorffori mewn ymarferion caffael a hefyd monitro eu cydymffurfriad ar y cyd â'r rheolwyr gwasanaeth perthnasol sy'n rheoli'r contractau ar ôl ymarfer caffael.
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill
Pa gynnydd a wnaed ar hyn yn 2023/24?	
Ni chafwyd unrhyw geisiadau am gymorth neu gyngor	
Pa heriau a gafwyd?	
Amherthnasol	
I ba raddau ydych chi'n fodlon â'r cynnydd yn erbyn y cam hwn dros oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn dylanwadu ar ymdrechion yn y dyfodol neu'n bwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028?	
Amcan: 5 Cam: E	Asesu nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen Cydraddoldeb neu Iaith Gymraeg.
Swyddog Adrodd:	Steven Honeywill / Alan Vernon-Jones
Cwynion a gafwyd yn 2023/24	
<u>Yn gysylltiedig â chydraddoldeb:</u> Cwynion a drafodwyd ar gamau 1 a 2 ym mhrosesau Cwyno Gofal Cymdeithasol a Chorfforaethol: • Roedd achwynydd yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wahanol pan ystyriwyd materion gorfodi Cynllunio, oherwydd eu hil. Dangosodd adolygiad o'r achosion ar gyfer yr achwynydd a'r cymdogion fod y canlyniadau'n seiliedig ar y sefyllfa ac nid yr unigolion. Ni chafodd y gŵyn ei chynnal. • Roedd tystysgrif gofrestru ddrafft yn cynnwys gwall sillafu na nodwyd gan y preswylwyr. Felly roedd tâl am gywiro. Eglurwyd bod gan un ochr ddyslecsia. Nid oedd hyn wedi'i ddatgelu ar y pryd, ond aeth yr adran ati i geisio diddymu'r ffi yn yr achos hwn. Cynhaliwyd yn rhannol. <u>Yn gysylltiedig â'r Gymraeg:</u> Cafodd y Cyngor 1 gŵyn yn uniongyrchol: • Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 09/02/2024 Diffyg darpariaeth chwarae Cymraeg. Ni chafodd y gŵyn ei chynnal. Cafwyd 5 ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg CS1130 - (yn parhau er 2022/2023) - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 27/03/2023 Arwydd uniaith Saesneg ar lwybr beicio wedi'i leoli ar gyffordd Tŷ Coch Way a Hollybush Way yng Nghwmbrân. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn.	

CS1145 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 25/04/2023

Cyfrif Twitter y Cyngor ddim yn Gymraeg ac arwyddion traffig dros dro ym Mhontnewydd, Cwmbrân

CS1163 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 12/06/2023

Mae arwyddion stryd a arferai fod yn ddwyieithog wedi newid i fod yn uniaith Saesneg / arwyddion traffig ffordd yn Saesneg yn unig. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn.

CS1061 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 28/09/2022

Mae'r gŵyn hon yn cyfeirio at gŵyn a godwyd ym mis Medi 2022, ond ni ymchwiliwyd iddi na'i chyfeirio at Dribiwnlys y Gymraeg i wneud penderfyniad amdani.

Ail-agorwyd yr achos ym mis Mehefin 2023. Mae'r gŵyn yn ymwneud â phlatiau enw stryd ac ystyried y Gymraeg wrth i'r Cyngor wneud ei benderfyniadau. Mae'r Ymchwiliad yn parhau.

- CS1149 - Cwyn a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 25/11/2023.

Ni atebwyd pedair galwad ffôn a wnaed yn rhan o ymarfer siopwr cudd y Comisiynydd. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau.

- CS1216 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 27/11/2023

Ni chafwyd unrhyw ateb i gais am wybodaeth am y Dreth Gyngor yn Gymraeg. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn

Gwybodaeth Ychwanegol

Gwnaeth y Cyngor ddiwygiad mewn perthynas ag un o'i amcanion llesiant corfforaethol yn y Cynllun Sirol i adlewyrchu diwygiad nod llesiant Cymru Lewyrchus i gynnwys sôn am 'waith teg'. Manylir ar hyn yn adroddiad hunanasesu a llesiant blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24, fel a ganlyn:

Er mai'r bwriad oedd cadw Amcanion Llesiant y Cyngor yr un fath trwy gydol y Cynllun Sirol, yn sgil newid i'r diffiniad ar gyfer un o'r nodau llesiant cenedlaethol roedd gofyn i ni adolygu ein Hamcanion Llesiant ein hunain. Newidiodd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 y diffiniad o'r nod llesiant cenedlaethol, 'Cymru Lewyrchus', ac felly roedd gofyn i ni adolygu ein hamcanion ein hunain ac ymgynghori ag undebau llafur cynrychiadol y Cyngor. Y diffiniad newydd ar gyfer Cymru Lewyrchus yw, 'Cymdeithas arloesol, gynhyrchol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.'. Mae'r diffiniad newydd yn cynnwys y gair 'teg' yn lle'r diffiniad blaenorol o 'addas'. Wrth ymateb i'r newid hwn, mae diffiniad newydd o Amcan Llesiant 6 wedi'i ddiffinio fel Amcan Llesiant 6 - 'Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i fod mewn busnes, gan ddarparu gwaith teg

i bawb, trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuriaidd '.

Atodiad A.

Data am y Gweithlu - Data Monitro Cydraddoldeb Gweithwyr

Mae'r data hyn yn seiliedig ar weithwyr a oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2024.

****Dylid nodi bod rhywfaint o'r data sydd â rhif sy'n llai na 5 wedi cael eu tynnu i sicrhau nad oes modd datgelu unrhyw unigolyn a'n bod yn cadw'r wybodaeth yn ddienw ****

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023-24 - Atodiad

Data am y Gweithlu a gedwir am staff CBST a oedd yn eu Swyddi ar 31.03.2024

Ar 31 Mawrth 2024, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cyflogi 4052 unigolyn.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl yn y sefydliad ar y dyddiad hwn a oedd wedi datgelu data personol ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig a restrir isod:

Nodwedd Warchodedig	Nifer y staff a roddodd y wybodaeth hon	Canran y staff a roddodd y wybodaeth hon
Oedran	4052	100%
Rhywedd	4052	100%
Ethnigrwydd	3795	93.66%
Statws Priodasol	3697	91.2%
Cyfeiriadedd Rhywiol	1595	39.36%
Crefydd neu Gred	1237	30.53%
Anabledd	1134	27.99%


Dylid nodi, er y gallwn annog pobl i ddatgelu gwybodaeth, na all yr awdurdod fynnu bod unrhyw weithiwr neu ymgeisydd yn rhoi unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'u nodweddion gwarchodedig.

Data am Oedran

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl a oedd yn gyflogedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 31 Mawrth 2024, wedi'u grwpio i gyd-fynd â grwpiau oedran y Cyfrifiad:

Oedran	16-24	25-34	35-49	50-64	65 neu'n hŷn
Nifer y gweithwyr	188	795	1541	1385	143

Mae'r graff isod yn dangos y ffigurau hyn fel canran o'r gweithlu, o'u cymharu â'r darlun cyflogaeth cyfan yn Nhorfaen a Gwent:



Gallwn weld, er enghraifft, fod 9.2% o bobl mewn gwaith yn Nhorfaen rhwng 16 a 24 oed a bod 4.6% o weithwyr CBS Torfaen rhwng 16 a 24 oed.

Data am Rywedd

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff benywaidd a gwrywaidd ym mhob un o'r pum maes gwasanaeth:

	Benywaidd	Gwrywaidd	Cyfanswm
Oedolion a Chymunedau	439	139	578
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	2087	430	2517
Yr Economi a'r Amgylchedd	80	291	371
Cyfarwyddiaeth Adnoddau	278	77	355
Y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (SRS)	54	176	230
Cyfansymiau	2938	1113	4051

Sylwer: mae'r cyfanswm 1 yn llai na'r cyfanswm o 4052 o weithwyr gan fod rôl y Prif Weithredwr y tu allan i faes gwasanaeth penodol.

Data am Ethnigrwydd

Er 1991, mae'r Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cynnwys cwestiwn am grŵp ethnig. Mae yna ddau gam i'r cwestiwn am grŵp ethnig. Yn gyntaf, mae'r unigolyn yn nodi un o'r pum grŵp ethnig lefel-uchel canlynol:

- Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grwpiau Ethnig Cymysg neu Luosog
- Gwyn
- Grwpiau ethnig eraill

Mae opsiynau categorïau data gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar ffurflenni monitro yn ein galluogi i grwpio'r rheiny sy'n ateb y cwestiwn i'r pum grŵp ethnig lefel-uchel hyn. Mae'r tabl isod yn dangos sut yr atebodd y 93.66% o aelodau o staff a roddodd eu data am ethnigrwydd, a sut y mae hyn yn berthnasol i boblogaeth Torfaen:

Grŵp Ethnig Lefel-Uchel	Canran o boblogaeth Torfaen yn 2011 (Ffynhonnell: Data Cyfrifiad SYG)	Canran o boblogaeth Torfaen yn 2021 (Ffynhonnell: Data Cyfrifiad SYG)	Canran o weithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen* (Ffynhonnell: Data iFOR a gedwir gan CBST)
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig	1.1%	1.3%	0.61%
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd	0.2%	0.2%	0.32%
Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog	0.7%	1.1%	0.55%
Gwyn	98%	97.1%	98.52%
Grwpiau ethnig eraill	0.1%	0.3%	0%

Nid yw 257 aelod o staff wedi rhoi data am eu hethnigrwydd (6.34% o'r gweithlu).

Statws Priodasol

Atebion cyflogeion wedi eu trefnu o'r mwyaf i'r lleiaf:

Priod	1865
Sengl	1212
Heb ateb	343
Partner	271
Wedi ysgaru	229
Wedi gwahanu	85
Gweddw	28
Mae'n well gen i beidio â dweud	12
Partneriaeth sifil	7

Rhwng 2011 a 2021, gwnaed newidiadau i gwestiwn y Cyfrifiad neu'r opsiynau y gallai pobl ddewis ohonynt neu sut y mae atebion sy'n cael eu hysgrifennu ar y papur yn cael eu categoraiddio. Nid oes modd cymharu'r opsiynau ateb ar gyfer gweithwyr CBST yn uniongyrchol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Cafwyd data am gyfeiriadedd rhywiol gan 1595 o aelodau o staff CBST, sydd gywerth â 39% o'r gweithlu.

Roedd 66 o bobl (1.6% o'r gweithlu) yn uniaethu o fewn grwpiau LHDTC+

Crefydd neu Gred

Cafwyd data am grefydd neu gred gan 1237 aelod o staff CBST, sydd gywerth â 31% o'r gweithlu.

Crefydd neu gred wedi'u trefnu o'r mwyaf i'r lleiaf:

Dim ateb	2679
Anffyddiwr	300
Cristion - Protestannaidd	201
Cristion - Uniongred	195
Cristion	169
Mae'n well gen i beidio â dweud	136
Agnostig	123
Dim	89
Cristion – Catholig Rhufeinig	83
Arall	66
Bwdhydd - Hinayana	<5
Hindŵ	<5
Bwdhydd - Mahayana	<5
Islam - Sunni	<5
Iddewiaeth - Ddiwygiedig	<5
Sikhiaeth	<5

Sylwer: mae <5 yn nodi rhif rhwng 1 a 5

Anabledd

Cafwyd data am anabledd gan 1134 aelod o staff CBST, sydd gywerth â 28% o'r gweithlu.

Nododd 65 o bobl (1.6% o'r gweithlu) fod ganddynt anabledd.